Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# GŴYS A RHAGLEN

ar gyfer

**CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN**

ar

**DYDD IAU**
**27 HYDREF 2022**
**am 2.00 o'r gloch**

# SUMMONS AND AGENDA

for an

**EXTRAORDINARY MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

on

**THURSDAY**
**27 OCTOBER 2022**
**at 2.00 pm**

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 30 Medi 2022.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

**4. HUNAN ASESIAD CORFFORAETHOL 2022**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 20 Hydref 2022.

**5. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2021/22**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 19 Hydref 2022.

**6. AMSERU CYFARFODYDD Y CYNGOR**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 4 Hydref 2022.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 30 Medi 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dafydd Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Paul Ellis, Jeff Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, A M Jones, Carwyn Jones, Dyfed W Jones, G O Jones, John I Jones, Alun W Mummery, Pip O'Neill, Derek Owen, Llio A Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Keith Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Alwen Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Liz Wood. |
| **WRTH LAW:** | Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO),<br>Rheolwr Strategaeth a Busnes y Gwasanaeth (GP)<br>Swyddog Cyfathrebu (GJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr John R Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Safonau)<br>Mrs Gill Murgatroyd (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Llinos Medi, R Ll Jones, Euryn Morris, Dafydd Rhys Thomas<br><br>Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151. |

**1. COFNODION**

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor Sir yn gywir:-

- 24 Mai, 2022 (Cyfarfod Cyffredinol)
- 24 Mai, 2022 (Cyfarfod Blynyddol Cyntaf)
- 31 Mai, 2022 (Cyfarfod Blynyddol a Ohiriwyd)

## 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn:-

- Llongyfarchwyd staff y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gweithio ar gynllun Cartrefi Clyd y Cyngor Sir. Mae'r cynllun wedi cyrraedd rhestr fer Gwobrau Plant mewn Gofal a bydd y seremoni'n cael ei chynnal ar 24 Tachwedd.

- Llongyfarchwyd Band Pres Biwmares a ddaeth yn drydydd ym Mhencampwriaethau Bandiau Pres Prydain yn Cheltenham ar 18 Medi.

- Llongyfarchwyd Mrs Gwenllian Owen, Rheolwr yr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol y Cyngor, am gwblhau Her Ultra yn ddiweddar. Cerddodd 50km o Runnymede i Henley-on-Thames fel rhan o Her Llwybr Tafwys i godi arian ar gyfer Hosbis Dewi Sant. Mae Mrs Owen wedi codi dros £550 ar gyfer cleifion sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd.

- Dywedodd y Cadeirydd iddo longyfarch Casi Evans o Benysarn yn ddiweddar am gael ei dewis i Garfan Pêl-droed Dan 16 Cymru i chwarae yn erbyn Denmarc, Y Ffindir a'r Swistir yn ystod y Pasg. Ers hynny mae Casi, sy'n ddisgybl yn Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch, wedi cynrychioli Cymru fel aelod o Dîm Dan 16 Cymru yn yr Unol Daleithiau a Thîm Dan 17 Cymru yng Nghroatia.

* * * *

Croesawodd y Cadeirydd Mr Marc Berw Hughes, y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc newydd i gyfarfod o'r Cyngor Sir Llawn a dymunodd yn dda iddo yn y swydd.

Dywedodd y Cadeirydd hefyd fod Estyn wedi cyhoeddi ei adroddiad ar yr Awdurdod Addysg yn ddiweddar. Mae'r adroddiad yn llawn canmoliaeth am y gwasanaethau addysg a ddarperir gan yr Awdurdod.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Cyngor Sir yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun newydd y Cyngor ar hyn o bryd. Gofynnodd i aelodau etholedig annog etholwyr i gymryd rhan yn y broses ymgynghori.

* * * *

Ar ran y Cyngor Sir, estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad dwysaf â'r Teulu Brenhinol yn dilyn marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor neu aelod o staff sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Safodd Aelodau a Swyddogion mewn teyrnged dawel.

## 4. AELODAU CYNORTHWYOL O'R PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fod Adran 57 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cyflwyno darpariaethau sy'n caniatáu penodi aelodau etholedig i gynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith (cynorthwywyr). Dim ond drwy benderfyniad gan y Cyngor llawn y gellir rhoi Adran 57 ar waith. Ni ellir penodi mwy na thri chynorthwyydd i'r Pwyllgor Gwaith ar unrhyw adeg ac nid oes tâl am gyflawni'r rôl. Bydd yr holl delerau ac amodau eraill yn cael eu penderfynu gan yr Arweinydd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr argymhellion o dan A.2 yn yr adroddiad.**

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol cyntaf y Pwyllgor Safonau gan Mr John R Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd Mr Jones fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('y Ddeddf') wedi cyflwyno dyletswyddau newydd ar y Pwyllgor Safonau a'r Cyngor mewn perthynas â gwella safonau ymddygiad Cynghorwyr a Chynghorwyr Cyfetholedig yn y Cyngor ac mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned. Nododd fod yr adroddiad yn amlinellu'r dyletswyddau a gyflwynwyd gan y Ddeddf a'r gwaith y mae'r Pwyllgor Safonau wedi'i wneud i baratoi ar gyfer y prif ddarpariaethau, a fydd ar ffurf Rheoliadau, ac sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi ymateb i'r ymgynghoriad ac mae ymateb y Pwyllgor wedi'i gynnwys yn yr adroddiad fel Atodiad 1. Ychwanegodd Mr Jones fod yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud yn unol â'i gyfrifoldebau yn 2021/22 a chyflwynwyd y Rhaglen Waith ar gyfer 2022/23 i'r Cyngor ei chymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:-**

- **derbyn yr adroddiad a nodi'r dyletswyddau newydd a osodwyd ar y Pwyllgor Safonau ac Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol a gyflwynwyd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;**
- **derbyn yr adroddiad ar Weithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn 2021/22;**
- **cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/23.**

*(Bu i'r Cynghorwyr Paul Ellis, Jeff Evans, Douglas M Fowlie, Aled M Jones, Derek Owen a Liz Wood atal eu pleidlais).*

## 6. HUNANASESIAD CORFFORAETHOL 2022

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid mewn perthynas â'r uchod.

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer yr adroddiad, a nododd ei bod yn ofynnol, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), i bob cyngor yng Nghymru adolygu ei berfformiad yn barhaus, sef i ba raddau y mae'n arfer ei swyddogaethau'n effeithiol; y mae'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol ac i ba raddau y mae ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol o ran cyflawni'r ddau fater cyntaf. Mae disgwyl i bob cyngor gyflawni'r ddyletswydd hon drwy gynnal hunanasesiad ac mae'n rhaid iddynt gyhoeddi adroddiad ar ganlyniad yr hunanasesiad. Yn unol â'r gofyniad hwn, paratowyd hunanasesiad cyntaf y Cyngor ar gyfer 2021/22.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r adroddiad.**

**7. SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD RANBARTHOL A LLEOL**

Cyflwynwyd – adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2022.

Cyflwynwyd yr adroddiad, sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Plant (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Gwasanaethau Ieuenctid. Nododd fod awdurdodau lleol yn wynebu heriau yn dilyn y pandemig ac yn ystod yr argyfwng costau byw. Ychwanegodd fod poblogaeth sy'n heneiddio ar yr Ynys yn gallu rhoi mwy o bwysau ar y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad ar gyfer Gogledd Cymru a'r Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad ar gyfer Ynys Môn.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30pm

**Y CYNGHORYDD DAFYDD ROBERTS**
**CADEIRYDD**

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | CYNGOR SIR YNYS MÔN |
| Dyddiad: | 27ain Hydref, 2022 |
| Pwnc: | Hunan Asesiad Corfforaethol 2022 |
| Deilydd Portffolio: | Cyng. Robin W Williams |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards, Pennaeth Proffesiwn AD & Thrawsnewid |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>gethinmorgan@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | D/B |

| A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|

Fel rhan o ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 cydnabyddir y dyletswydd canlynol ar Gyngor Sir Ynys Môn –

**…….. i adolygu ei berfformiad yn barhaus**

(1) Rhaid i brif gyngor adolygu'n barhaus i ba raddau—

(a) y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol,

(b) y mae'n defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol, ac

(c) y mae ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol o ran cyflawni'r materion a nodir ym mharagraffau (a) a (b)

**ac, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol,**

lunio adroddiad sy'n nodi ei gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y gwnaeth fodloni'r gofynion perfformiad (a, b & c uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

I ddiwallu'r disgwyliad uchod, yr hyn sydd wrth law yw Hunan-Asesiad 2021/22 y Cyngor Sir. Mae'n tystiolaethu allbwn y fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad y Cyngor Sir ac yn ddiweddglo proses sydd yn cyd-blethu amryw o wahanol agweddau at ei gilydd.

Ystyriwyd y drafft yn wreiddiol gan -

- y Pwyllgor Gwaith mewn cyfarfod ar y 19eg o Orffennaf, 2022; ac wedyn gan
- y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ar y 26ain o Orffennaf.

Wedi hynny mabwysiadwyd y drafft gan Gyngor Sir Ynys Môn fel drafft gweithredol yn ei gyfarfod ar 30 Medi 2022 cyn gwahodd sylwadau pellach gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 20 Hydref 2022.

| A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau |
| --- |
| Yn ei gyfarfod ar 20 Hydref cynigiodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 2 ystyriaeth bellach i'w cynnwys yng nghorff yr hunanasesiad corfforaethol –<br><br>i) Ymestyn y pwt ar arian wrth gefn ar dudalen 20 i gynnwys y 'cysur' sydd gan y Cyngor gyda lefel gyffredinol y cronfeydd wrth gefn; a<br>ii) bod y ffaith bod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r ddogfen yn cael ei gynnwys yng nghorff yr adroddiad yn hytrach nag yn y flaen adroddiad<br><br>I ymateb i'r argymhelliad cynigir bod y datganiad canlynol yn cael ei gynnwys ar dudalen 20 o'r hunanasesiad –<br><br>*Mae'r Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ariannu risgiau posibl ac i ariannu prosiectau a adnabuwyd. Mae lefel y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn adlewyrchu'r gofyniad a aseswyd. Delir balansau cyffredinol i ariannu risgiau anhysbys a gwariant nas rhagwelwyd. Gosododd y Pwyllgor Gwaith isafswm balans o £9m ar gyfer y flwyddyn ariannol 21/22. Roedd y balans gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol £3m yn fwy na'r isafswm balans hwn. Bydd y balans hynny yn galluogi'r Cyngor i fod mewn gwell sefyllfa i fynd i'r afael â'r heriau ariannu y mae'n eu hwynebu yn y dyfodol o 2023/24 ymlaen.*<br><br>Mae'r datganiad canlynol wedi'i gynnwys ar dudalen 4 yn yr hunanasesiad –<br><br>*Mae'r hunanasesiad hwn (y cyntaf o'i fath o dan y ddeddfwriaeth newydd) wedi bod drwy broses adolygu trylwyr gan y grwpiau canlynol –*<br><br>• *Grŵp Adolygu Perfformiad (gan gynnwys Archwilio Mewnol)*<br>• *Tîm Arweinyddiaeth*<br>• *Pwyllgor Gwaith*<br>• *Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio*<br><br>*cyn ei fabwysiadu'n llawn gan holl aelodau'r Cyngor Sir ym mis Hydref 2022.*<br><br>**Argymhellir felly bod y Cyngor Sir yn –**<br><br>**1) cytuno â'r addasiadau a restrir uchod ac awdurdodi swyddogion i ddiwygio'r drafft terfynol;**<br>**2) Mabwysiadu'r Hunanasesiad Corfforaethol 2022 yn ffurfiol;**<br>**3) cytuno ei fod yn cael ei anfon at y rhestr ganlynol o dderbynwyr o fewn y cyfnod o bedair wythnos yn dilyn y cyfarfod hwn fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 –**<br>**i) Archwilydd Cyffredinol Cymru**<br>**ii) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, a**<br>**iii) Gweinidogion Cymru.** |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn? |
| --- |
| Ni ystyriwyd opsiynau eraill gan fod y disgwyliad yma'n un o newidiadau creiddiol y ddeddfwriaeth newydd – Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

| C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
| --- |
| Mae'r broses hwn i ennyn sylw a sylwadau'r Pwyllgor Gwaith ynghyd a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn i ddrafft o'r Hunanasesiad gael ei ystyried a'i fabwysiadu gan y Cyngor Sir llawn ym mis Medi eleni.<br><br>Mae'n broses sydd yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydi.<br><br>Penderfynodd y Cyngor Llawn ar y 25 o Ebrill:<br><br>• Rhaid i'r Cyngor llawn fabwysiadu drafft o'r Hunan asesiad.<br>• Rhaid i'r drafft hwnnw fynd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o fewn 4 wythnos;<br>• Rhaid i'r drafft gydag unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cael ei ystyried a fynd yn ôl wedyn gerbron y Cyngor llawn i'w fabwysiadu fel yr Hunan asesiad terfynol.<br><br>Mae hyn yn adlewyrchu'r gofynion cyfreithiol yn Neddf 2021. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Rhagwelir bod y rhaglen waith cysylltiedig â'i wireddiad dan arweinyddiaeth a pherchnogaeth y Tîm Arweinyddiaeth (TA) o fewn amser yn unol â blwyddyn gyllidol y Cyngor Sir am 2022/23. |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir drwy gydnabod meysydd cysylltiedig sydd angen sylw pellach fel corfforaeth. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Yn rhannol – ydi, parthed y gwelliannau disgwyliedig sydd ei angen mewn perfformiad rhai meysydd a.y.y.b. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae rhan penodol o'r hunanasesiad yn cydnabod yr holl waith cydweithio sydd yn digwydd ar draws ystod y gwasanaethau. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'u rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut. | Mae dinasyddion Ynys Môn drwy'r pwyllgorau sgriwtini corfforaethol yn cael cyfle chwarterol i fynegi barn a herio'r gorfforaeth ar ei berfformiad. Mae'r cynnwys hefyd yn datgan sut bod y gwasanaethau gwahanol yn cynnwys dinasyddion yn ei penderfyniadau.<br><br>Ymgynghorwyd hefyd ar gynnwys y drafft HA gyda'r Undebau Llafur dros yr haf - derbyniwyd ymateb gan GMB fel a ganlyn -<br><br>"Mae'r ddogfen yn edrych i fod yn ddarn cynhwysfawr a manwl o wybodaeth ac mae'n rhoi trosolwg o ystyriaethau'r awdurdod lleol"<br>Roedd nodyn o rybudd hefyd "ar y rhagdybiaeth efallai nad oedd yr hunan asesiad wedi cymryd golwg feirniadol fanwl ar unrhyw feysydd sy'n wan."<br><br>Nodwyd nad yw hyn yn "dweud nad yw'n farn gywir", ond y byddai angen i'r unigolyn fod yn gyfarwydd â'r wybodaeth y mae'r awdurdod wedi'i defnyddio'n fanwl er mwyn gallu gwneud sylwadau llawn. "Ar y cyfan" fe'i nodwyd fel "darn o waith positif". |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Ni rhagwelir bod y rhaglen waith yn cael effaith ar y grwpiau a ddiogelir dan ddeddf cydraddoldeb 2010. |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | D/B |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg. | D/B |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth ddywedon nhw? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arwain (UDA) (gorfodol) | Mae sylwadau'r PW / TA wedi'i cynnwys yn yr adroddiad cyfredol. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Mae sylwadau'r Swyddog 151 fel aelod cyflawn o'r TA wedi cynnwys yn ogystal. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Mae sylwadau'r Swyddog Monitro yn cael eu cyfarch ym mhwynt Ch. uchod. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi cynnwys yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | Dim yn berthnasol |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Hunan-Asesiad Drafft Cyngor Sir Ynys Môn - 2022 |

| Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad i gael unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

# Hunanasesiad - 2022

Hunanasesiad cyntaf y Cyngor Sir, fel y disgwylir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021

DRAFT

**Paratowyd gan –** Y Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad cyhoeddi:** Hydref 2022

## Hunanasesiad y Cyngor o ganlyniad i –

## Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth (APG/SPR's) / Adroddiadau Perfformiad / Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB/AGS) / Adolygiadau Allanol / Arolwg Staff / Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

| Categori Hunanasesiad | Perfformiad | Rhesymeg |
|---|---|---|
| Rheoli Perfformiad | Da | Perfformiad da yn erbyn dangosyddion allweddol<br><br>Darpariaeth gwasanaeth i gwsmeriaid wedi'i haddasu a'i moderneiddio<br><br>Strwythurau llywodraethu priodol ar waith sy'n galluogi penderfyniadau amserol |
| Defnyddio Adnoddau | Da | Lefelau uwch o gronfeydd wrth gefn. Gweler tud 20<br><br>Y mwyafrif o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn falch of fod yn gweithio i'r Cyngor<br><br>Strwythurau cydweithredol rhagorol ar waith |
| Rheoli Risg | Da | Adroddiadau Archwilio Allanol Cadarnhaol<br><br>Wedi ymgymryd ag adolygiad trylwyr o'r gofrestr risg strategol<br><br>Ymagwedd gadarnhaol y Cyngor tuag at ddiogelu corfforaethol |

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn un sy'n adlewyrchu hunanasesiad cyntaf Cyngor Sir Ynys Môn fel y disgwylir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'n adlewyrchu allbwn y fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad corfforaethol ac yn darparu sail dystiolaethol o ran y modd y mae'r Cyngor wedi perfformio. Defnyddir yr adnoddau sydd ar gael iddo wrth reoli a lliniaru risgiau cysylltiedig yn ystod cyfnod heriol ac ansicr i lywodraeth leol o ran ei hymateb i'r pandemig Covid.

Bwriad y fframwaith perfformiad a llywodraethu cenedlaethol newydd yw cefnogi newid diwylliannol a sefydliadol o fewn llywodraeth leol. Y nod yw adeiladu ar gryfderau presennol a chreu sector mwy arloesol, agored, gonest, tryloyw ac uchelgeisiol, sy'n herio ei hun, a lle mae cynghorau ar y cyd yn mynd ati i wella canlyniadau a safonau mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ledled Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod ac yn cadw at ddisgwyliadau o'r fath.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw, i ba raddau:

- y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

Mae'r Adolygiadau o Berfformiad Gwasanaethau yn darparu un o elfennau craidd y Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol (CPPMF), ac mae eu swyddogaeth a'u pwrpas yn elfen hanfodol o drefniadau llywodraethu corfforaethol cryf.

Mae hunanwerthuso'n rhan annatod o unrhyw broses sydd ar waith i wella sefydliad, a'i brif bwrpas yw gweithredu fel modd o hunansicrhau. Fodd bynnag, cydnabyddir o fewn Cyngor Sir Ynys Môn, trwy hunanwerthuso mewn modd effeithiol, gall hefyd roi sicrwydd i gynulleidfaoedd allanol, gan gynnwys partneriaid, rheoleiddwyr ac, yn wir, preswylwyr.

Gofynnwyd i bob Gwasanaeth (y mae gan Gyngor Sir Ynys Môn naw ohonynt) gwblhau hunanasesiad - gan sgorio eu perfformiad yn ôl meysydd a nodwyd yr ystyriwyd eu bod yn bwysig o ran mesur perfformiad cyffredinol gwasanaethau. Gofynnwyd iddynt werthuso eu perfformiad yn erbyn y pedwar maen prawf isod:

1. Rhagorol – Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion rhagorol yn y sector
2. Da – Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
3. Digonol – Cryfderau yn gorbwyso'r meysydd i'w gwella
4. Anfoddhaol – Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

I ategu'r gwerthusiad o berfformiad, gofynnwyd hefyd i bob un o'r Gwasanaethau amlygu eu barn o ran sefyllfa'r gwasanaeth yn nhermau'r rhagolygon y bydd yn gwella yn y dyfodol. Gwnaed hyn trwy ddefnyddio'r meini prawf isod, a gellir cael mynediad iddynt yn Atodiad 'A'A':

A. Rhagorol – Tebygol iawn. Mae gan y gwasanaeth hanes rhagorol o ran ei allu i wella, ac mae ganddo'r capasiti i gefnogi gwasanaethau eraill i wneud yn well
B. Da – Gwasanaeth effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda, ac mae'n gwybod pa feysydd y mae angen eu gwella. Trwy ganfod y gefnogaeth iawn a rhoi camau gweithredu ar waith, mae gan y gwasanaeth y potensial i wneud yn well fyth

DRAFT

C. Digonol – Mae angen gwella'r gwasanaeth, ac mae angen ei helpu i ganfod y camau i wella, neu i wneud newidiadau'n gyflymach trwy drafodaethau â'r Uwch Dim Arweinyddiaeth
D. Anfoddhaol – Mae angen gwella'r gwasanaeth yn sylweddol, ac mae angen iddo dderbyn cymorth ar unwaith

Gyda'i gilydd, mae'r gwerthusiad o berfformiad, yn ogystal â gwireddu'r rhagolygon y bydd gwasanaethau'n gwella yn y dyfodol, a gyflwynir i aelodau etholedig ac a fydd yn destun craffu ganddynt, yn darparu darlun cyfredol a chywir o sefyllfa'r gwahanol wasanaethau o'u safbwynt hwy, ac mae'n darparu rhan o'r dystiolaeth ar gyfer yr Hunanasesiad corfforaethol hwn.

Trwy gydol y naw mlynedd diwethaf, bu'r Cyngor yn gwella ac yn aeddfedu'r modd y mae'n esblygu'r fframwaith rheoli perfformiad.

Mae'r hunanwerthusiad hwn yn crynhoi casgliad y gwaith hwnnw ar gyfer 2021/22, ac yn gwerthuso perfformiad cyffredinol y Cyngor, a sgoriwyd gan ddefnyddio'r un dulliau â'r rheiny a amlinellwyd yn flaenorol.

DRAFT

# A. Rheoli Perfformiad

## Cyflwyniad

Er mwyn cael darlun trylwyr, teg a chyflawn o ansawdd rheoli perfformiad o fewn y Cyngor, bydd yr adran hon o'r hunanasesiad yn dwyn ynghyd gwybodaeth am Adroddiadau Perfformiad, Gwasanaethau i Gwsmeriaid, a Llywodraethu a Chydymffurfiaeth. Trwy ddod â'r rhain ynghyd, gellir dangos ein perfformiad fel sefydliad, ynghyd â'n diwylliant a'r modd yr ydym yn rheoli newid, fel tystiolaeth i gefnogi'r casgliad cyffredinol.

Caiff tystiolaeth o'r adroddiadau a'r gweithgareddau a ganlyn a gyflawnwyd trwy gydol y flwyddyn eu defnyddio hefyd fel dogfennau ategol:

- Yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol
- Yr Adroddiad Llywodraethu Blynyddol
- Adolygiadau o Wasanaethau
- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Cod Llywodraethu Lleol
- Adroddiadau chwarterol ar y Cerdyn Sgorio


ac maent yn dangos y perfformiad yn erbyn dangosyddion, yn ogystal ag yn darparu tystiolaeth o'r camau gweithredu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod.

# Adrodd ar Berfformiad

## Trosolwg

O edrych ar y modd y mae'r Cyngor yn adrodd ar berfformiad, ceir tystiolaeth bod y graddiad cyffredinol yn 'dda'. Mae'n galonogol cael nodi y cafodd pob Gwasanaeth ond un eu graddio'n dda neu'n well fel rhan o'u hunanasesiad eu hunain o'u gwasanaeth. Yr unig wasanaeth a raddiwyd yn ddigonol oedd y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, yn bennaf oherwydd y lefelau perfformiad o fewn y swyddogaeth Cynllunio. Nodir hefyd y cafodd dau wasanaeth, sef Tai a Thrawsnewid, eu graddio'n Rhagorol fel rhan o'r Adolygiadau Gwasanaeth, o ganlyniad i'r gefnogaeth a roddwyd ganddynt mewn ymateb i'r heriau'r pandemig.

O ran y dangosyddion yng nghyswllt y Cerdyn Sgorio Corfforaethol, roedd eu perfformiad, o ganlyniad i'w meincnodi yn erbyn awdurdodau eraill yng Nghymru yn 2018/19 (y canlyniadau a gyhoeddwyd ddiwethaf) yn dda, a oedd yn golygu bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi'i raddio'n ail yn gyffredinol ar gyfer y flwyddyn benodol honno. O ran perfformiad y Cyngor yn 2018/19, nodwyd y canlyniadau fel a ganlyn -



Oherwydd y pandemig Covid-19, fe gafodd y broses o gasglu dangosyddion mesurau atebolrwydd cyhoeddus (MAC) ar gyfer 2019/20 ei chanslo, a dim ond nifer fechan oedd wedi'u coladu yn ystod 20/21. O ganlyniad i hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod perfformiad 2018/19, ac yn defnyddio hwn fel llinell sylfaen ar gyfer dod i gasgliad ynghylch perfformiad presennol.

Roedd targedau perfformiad y Cyngor ar gyfer 2021/22 yn seiliedig ar berfformiad y flwyddyn flaenorol, ynghyd ag effaith y pandemig Covid-19.

Ar ddiwedd Ch3 (Rhagfyr 2021), roedd y mwyafrif (82%) o ddangosyddion perfformiad adroddiad monitro perfformiad chwarterol y cerdyn sgorio yn uwch na'r targed, neu o fewn lefel oddefiant o 5% o'u targedau.

Fodd bynnag, nodir na chafodd unrhyw ddangosyddion eu cytuno ar lefel genedlaethol o ran y modd y mae ysgolion yn perfformio, ac mae hyn yn parhau i fod yn her o safbwynt ceisio darparu tystiolaeth o berfformiad addysgol ar lefel gorfforaethol. Wedi dweud hynny, ni chafodd unrhyw ysgolion eu harolygu gan Estyn yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'n galonogol cael gweld y dystiolaeth hon, ac mae'r **Adroddiad Perfformiad Blynyddol** ar gyfer 2020/21 (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021) hefyd yn dangos y gwaith a gyflawnwyd trwy gydol y flwyddyn. Mae'n datgan ***"Ar ddiwedd blwyddyn heriol i bawb, mae'n galonogol cael nodi, o ran gweddill y dangosyddion a adroddwyd ar ddiwedd y flwyddyn (33 o ddangosyddion), roedd y mwyafrif (70%) ohonynt wedi perfformio'n uwch na'r targed neu o fewn lefel oddefiant o 5% o'u targedau."***

Roedd rhai o'r prif bethau a gyflawnwyd yn cynnwys –



Adeiladwyd **10** uned fusnes newydd yn Stad Ddiwydiannol Penrhos yn ystod y flwyddyn, a chanddynt denantiaid lleol

North Anglesey Economic Regeneration Plan

Diogelwyd **£110,000** gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear i gyflenwi blwyddyn gyntaf Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn



Cafodd **11 o fusnesau** gyllid o Gronfa Grantiau Gogledd Ynys Môn sydd wedi helpu i:

- greu neu **ddiogelu 39** o swyddi lleol,
- creu **30 o gyfleoedd hyfforddi**, a
- chreu **96 o gyfleoedd gwirfoddoli**



Sefydlwyd menter gydweithredol â **Grŵp Llandrillo-Menai** i ddatblygu **Fframwaith Brentisiaethau ar gyfer Gogledd Ynys Môn** i helpu i **ddarparu cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau at y dyfodol** yn yr ardal



Daeth Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn i gytundeb ynghylch **dyfodol y ddarpariaeth o ran ysgolion cynradd yn ardal Llangefni**

DRAFT



Yn ystod y rhan gyntaf o'r flwyddyn, roedd ysgolion yn gweithredu o dan amodau argyfwng oherwydd y pandemig coronafeirws.

Roeddynt yn darparu **canolfannau gofal i blant bregus ac i blant weithwyr allweddol**, ac yn darparu gwersi a gweithgareddau digidol i'w cyflawni adref ar gyfer pob myfyriwr



Yn ystod blwyddyn o newid mawr, daeth **ein cymunedau** ynghyd gyda channoedd o gymdogion, aelodau teulu a ffrindiau'n rhoi cymorth i bobl y mae angen cymorth arnynt fwyaf. Mae'r cysylltiad cryf hwn dros y flwyddyn wedi helpu'r **Cyngor** a'n partneriaid, **Menter Môn** a **Medrwn Môn**, i adeiladu ar y sylfaen o **wirfoddolwyr** a sefydlwyd o fewn ein cymunedau ers dechrau'r pandemig



Er mwyn **mynd i'r afael â thlodi bwyd** a bwyd sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, fe aeth y Cyngor ati, ar y cyd â phartneriaid lleol, i gyflwyno cynllun **Bwyd Da Môn / Môn Good Food**



Roedd nifer yr aelwydydd a leolwyd mewn **llety brys** yn ystod 2020-21 yn amrywio o rhwng **27 i 63 o unigolion a theuluoedd** bob nos. Dyma'r nifer **uchaf** a mwyaf cyson o aelwydydd y mae'r Gwasanaeth wedi darparu ar eu cyfer. Mewn cymhariaeth, lleolwyd rhwng 3 a 26 o aelwydydd mewn llety brys bob nos yn ystod 2019-20.



Fe gafodd y contract prydau ysgol ei ail-dendro. Bydd **disgyblion oedran cynradd** ledled yr ynys yn derbyn **prydau am bris gostyngedig** ac felly byddant yn eu gwneud yn fwy fforddiadwy i deuluoedd ar yr ynys mewn cyfnod o gostau byw cynyddol



Mae'r newid i dechnoleg ddigidol yn parhau i gyflymu o fewn ysgolion lle defnyddiwyd **grantiau gan Lywodraeth Cymru** i alluogi ysgolion i dderbyn rhagor o gyfrifiaduron **Chromebook**

Defnyddiwyd cyllid o gronfa **ICF Llywodraeth Cymru** i brynu **eiddo yng nghanol y dref yn Llangefni**, i gefnogi **Mencap Môn** a darparu Hyb ar eu cyfer yng nghanol Ynys Môn

DRAFT

I weld rhagor o wybodaeth o'r adroddiad hwn, ac i weld adroddiadau cysylltiedig eraill, ewch i [www.ynysmon.llyw.cymru/cynllunycyngor](http://www.ynysmon.llyw.cymru/cynllunycyngor)

Yn dilyn Arolwg Sicrwydd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym Mehefin 2021, cadarnhawyd ganddynt fod ein Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'n Gwasanaethau Oedolion yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol. Roedd y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn dal i allu perfformio a chyflawni'r mwyafrif o'u targedau, mewn cyfnod o bwysau a heriau parhaus o ganlyniad i effeithiau'r pandemig.

Mae'r cyfuniad o dystiolaeth yn nodi'n glir bod perfformiad y Cyngor yn gyffredinol yn **DDA** a ddiffinnir fel "**Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol**".

Tra bu'r perfformiad yn galonogol, mae'n bwysig nodi ein bod ar daith barhaus tuag at wella ein gwasanaethau, a byddwn bob amser yn canfod meysydd sydd angen eu gwella a'u moderneiddio.

Un agwedd y bydd angen i ni ganolbwyntio arni yw sicrhau bod staff yn ymwybodol o berfformiad y Cyngor, gan fod arolwg staff 2022 yn cydnabod mai dim ond **1 o bob 4 aelod staff sy'n gwbl ymwybodol** o berfformiad y Cyngor, gyda **2 o bob 4 yn ymwybodol i ryw raddau**.



## Meysydd i'w Gwella

Yn ystod 2022/23, y **gwelliannau allweddol a dargedir** yw:

| Maes i'w wella | Sicrwydd |
|---|---|
| Parhau i fonitro a gwella'r dangosyddion a effeithiwyd gan y pandemig coronafeirws i sicrhau y caiff unrhyw risgiau cysylltiedig eu rheoli'n briodol | Adroddiadau Monitro Chwarterol y Cerdyn Sgorio |
| Gwella'r dangosydd o ran canran y gwastraff a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl | Adroddiadau Monitro Chwarterol y Cerdyn Sgorio |
| Gwella perfformiad o fewn y gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, gyda sylw arbennig i ddangosyddion o fewn y swyddogaeth Cynllunio | Adroddiadau Monitro Chwarterol y Cerdyn Sgorio |
| Defnyddio meddalwedd i ddod yn fwy ymwybodol o ddata ac yn fwy gwybodus i wneud penderfyniadau hyd yn oed mwy effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth | Y Bwrdd Rhaglen |
| Datblygu modd i gyfathrebu perfformiad y Cyngor i gynulleidfa ehangach o ran staff | Y Tîm Arweinyddiaeth |

# Gwasanaethau i Gwsmeriaid


## Trosolwg

Roedd y mwyafrif o'r gwasanaethau'n graddio eu perfformiad yn Dda.

Yr unig Wasanaeth oedd wedi cael ei raddio'n **Rhagorol** oedd y gwasanaeth **Dysgu** oherwydd y gwaith o fewn ysgolion trwy gydol blwyddyn arall o ansicrwydd o ganlyniad i'r pandemig. Roedd ethos 'un tîm' rhwng ysgolion a'r Gwasanaeth Dysgu'n sicrhau meddylfryd 'Tîm Ynys Môn' trwy'r cyfnod cyfan. Cyflwynodd yr ysgolion swigod ysgol a dysgu cyfunol, a ddilynwyd gan fenthyca cyfrifiaduron Chromebook i deuluoedd nad oedd yn gallu fforddio prynu gliniaduron i'w plant.

Bu **strategaeth ddigidol** y Cyngor a'i alluogrwydd digidol yn hanfodol o ran cynnal parhad busnes yn ystod cyfnod dwy flynedd y pandemig (yn ogystal â dewrder ac ymroddiad staff rheng flaen).

Mae rhai o'r newidiadau a'r **gwelliannau digidol** a wnaed yn cynnwys:







- Gallu archebu ymweliad â'r canolfannau ailgylchu trwy'r wefan, mae'r trefniant hwn yn parhau yng Nghanolfan Gwalchmai hyd heddiw
- O ran prynu'r gwasanaeth gwastraff gardd gwyrdd trwy'r wefan, gwelwyd tua 70% o'r ceisiadau'n manteisio ar fynediad i'r gwasanaeth yn ddigidol
- Ceir tystiolaeth y gwneir y mwyafrif o'r ceisiadau a'r ail-geisiadau ar gyfer bathodynnau glas trwy ein darpariaeth ddigidol
- Gellir cyflwyno, gweld ac olrhain ceisiadau cynllunio trwy'r porth cynllunio digidol
- Erbyn hyn, gellir gwneud cais am drwydded tacsi trwy'r wefan
- Gellir hysbysu'r Cyngor ynghylch problemau o ran tipio anghyfreithlon / goleuadau stryd trwy'r wefan hefyd
- Mae'r Gwasanaeth Tai wedi mabwysiadu dull electronig gwell ar gyfer gwneud ceisiadau yng nghyswllt tai, hawliau lles a digartrefedd

Mae pob dangosydd o dan yr is-bennawd 'newid cyfrwng digidol' o fewn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol wedi gweld perfformiad gwell na chanlyniadau blaenorol, ac wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, sydd felly'n caniatáu i ragor o ddinasyddion gael mynediad i wasanaethau ar adeg ac mewn lle sy'n gyfleus iddynt hwy.

Tra gellir ystyried bod y datblygiadau hyn yn rhai cadarnhaol, daw risgiau yn eu sgil hefyd. Trwy ei gofrestr risg strategol, mae'r Cyngor yn cydnabod y risgiau hyn o safbwynt mynediad, llywodraethu a chymorth, ac yn gweithio i'w lliniaru lle bo hynny'n bosibl, er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad.

Rhestrir isod rhai o'r gweithgareddau eraill yng nghyswllt gwasanaethau i gwsmeriaid (**nad ydynt yn rhai digidol**) yr ymgymerwyd â hwy gan y Gwasanaethau ers dechrau'r pandemig, ac y cafwyd tystiolaeth ohonynt o fewn yr adolygiadau o'r gwasanaethau yn 2021:

- Roedd pob gwasanaeth yn cadw at y [**Siarter Gofal Cwsmeriaid**] er gwaethaf y pandemig;


DRAFT

- Gwnaed dros 2,600 o alwadau lles i denantiaid y Cyngor i sicrhau eu lles ac i'w hysbysu ynghylch gwasanaethau ymateb cymunedol yn ystod y pandemig;
- Roedd y **Gwasanaethau Tai** hefyd yn gydran hanfodol yn y gwaith o sefydlu prosiect Neges, a oedd yn danfon eitemau hanfodol i'r gymuned yn ystod y panedmig, a oedd yn cynnwys bwyd;
- Bu'r **Gwasanaeth Adnoddau** yn gyfrifol am nifer o weithgareddau ychwanegol yng nghyswllt Covid-19, fel prosesu ceisiadau grant ar gyfer busnesau ledled yr ynys;
- Gwelodd y **Gwasanaeth Dysgu** sawl newid o ran y modd y darparwyd addysg i fyfyrwyr yn ystod y pandemig. Roedd newid i ddysgu ar-lein yn golygu y bu rhaid i athrawon a myfyrwyr fel ei gilydd ddysgu'n gyflym i addasu i drefn newydd. Fe drawsnewidiwyd ysgolion yn Hybiau Gofal i blant gweithwyr allweddol a myfyrwyr a oedd yn agored i niwed. Rhoddodd pob ysgol arweiniad newydd ar waith o ran diogelwch.
- Gwelodd y **Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** gynnydd sylweddol o ran gwaith yr Uned Gwarchod y Cyhoedd o safbwynt sicrhau bod busnesau'n cadw at Ddeddf Coronafeirws (Cymru). Ar yr adegau nad ydynt yn gwneud hynny, rhoir hysbysiadau gorfodi ar waith i gadw preswylwyr yn ddiogel.
- Mae Canolfannau Hamdden wedi rhoi gweithdrefnau newydd ar waith i sicrhau y caiff cwsmeriaid a staff eu cadw mor ddiogel â phosib wrth ddefnyddio'r gwasanaeth. Ar yr adegau y bu'r canolfannau ar gau, fe gafodd y staff eu hadleoli i weithio gyda'r tîm Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) ynghyd â helpu i ddanfon parseli bwyd a PPE.
- Adleolwyd staff Môn Actif i ysgolion i gynorthwyo pan nad oedd athrawon cyflenwi ar gael i agor ystafelloedd dosbarth, a oedd yn sicrhau parhad y profiadau dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Roedd y Canolfannau Hamdden hefyd wedi agor eu drysau i weithgareddau eraill fel y Gwasanaethau Mamolaeth ac ar gyfer profi'r gymuned ar lefel dorfol yn ardal Ynys Gybi.
- Gwelodd y Gwasanaethau i Oedolion un o'r effeithiau mwyaf ar eu gwasanaethau yn ystod cyfnod y pandemig, pan fu rhaid gwahardd unrhyw ymweliadau â Chartrefi Gofal. Roedd hyn yn golygu mai'r staff oedd yr unig wynebau cyfarwydd y bu modd i breswylwyr cartrefi gofal eu gweld am gyfnod hir.
- Gwelodd y **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** roi 'ap' ar waith o'r enw 'Newid', sy'n ceisio gwella'r modd yr oedd plant yn dangos eu hemosiynau yn ystod y pandemig.

  Dengys yr enghreifftiau hyn bod y Cyngor wedi addasu a moderneiddio ei ddarpariaeth a'i ddulliau gweithio i gyflawni gofynion cwsmeriaid a gwella ei wasanaethau i gwsmeriaid yn ystod y 12 mis diwethaf.

DRAFT

Yn ogystal, roedd yr arolwg staff diweddaraf (2022) yn nodi –



Roedd **88% o'r staff** yn teimlo bod profiadau cadarnhaol i gwsmeriaid yn bwysig i'r Cyngor

Roedd **78%** yn teimlo bod y Cyngor yn gwrando ar ei breswylwyr



10



Hefyd roedd **82%** yn teimlo bod syniadau gan staff o ran gwella profiadau cwsmeriaid yn cael eu hannog a'u gwerthfawrogi

Felly, ar y cyfan, o ystyried y dystiolaeth a'r drafodaeth a ddangoswyd trwy'r Adolygiadau Gwasanaeth a'r enghreifftiau a ddarparwyd uchod, mae'r perfformiad o ran Gwasanaethau i Gwsmeriaid yn **DDA**.

## Meysydd i'w Gwella

Yn ystod 2022/23, y **gwelliannau allweddol a dargedir** yw:

| Maes i'w wella | Sicrwydd |
|---|---|
| Rhoi mwy o gyfleoedd i breswylwyr a rhanddeiliaid i sicrhau y clywir eu llais trwy fabwysiadu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sydd wedi'i hadolygu a'i hailwampio ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig | Y Pwyllgor Gwaith |
| Cael adborth ar brofiadau cwsmeriaid o ran y System Ffôn Gorfforaethol a'r switsfwrdd i lywio gwelliannau at y dyfodol | Tîm Arweinyddiaeth |
| Parhad pellach y newid o ran y sianel ddigidol trwy lansio 'Sgwrsfot' dwyieithog 'Mona' i hwyluso chwiliadau digidol a wneir gan gwsmeriaid ynghyd â phrofiadau ar-lein | Tîm Arweinyddiaeth |
| Moderneiddio ein dulliau gweithio, o wasanaethau i gwsmeriaid i brofiad mwy cyflawn i gwsmeriaid | Tîm Arweinyddiaeth |

DRAFT

# Llywodraethu a Chydymffurfiaeth

## Trosolwg

Mae’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethiant y Cyngor. Ei swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol, ar lefel uchel, i gefnogi llywodraethiant da, ynghyd â rheolaeth gadarn o ran cyllid cyhoeddus, ac i ddarparu sicrwydd annibynnol ‘i’r rheiny sy’n gyfrifol am lywodraethu’ o ran digonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol, ynghyd ag uniondeb y prosesau adrodd a llywodraethiant ariannol. Mae’r adroddiad cyhoeddus blynyddol yn dangos y modd y mae’r pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

Cefnogir y datganiad hwn hefyd gan ganfyddiadau’r adolygiadau o wasanaethau, a oedd yn darparu tystiolaeth bod Gwasanaethau’n perfformio’n dda, gyda phob un ond un wedi’u graddio’n Dda o fewn yr Adolygiadau Gwasanaeth. Mae gan bob gwasanaeth **strwythurau rheoli / llywodraethiant da** ac maent yn cynnal **cyfarfodydd portffolio rheolaidd**.


Yn ôl **Adroddiad Blynyddol** diweddaraf yr **Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (UBRG/SIRO)** a drafodwyd yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 21ein Medi 2021, “*mae trefniadau llywodraethu diogelu data y Cyngor wedi cyrraedd lefel ddigonol o aeddfedrwydd, ac wedi gwreiddio yn ddigonol yn niwylliant y Cyngor i’w alluogi i nodi newidiadau a gwelliannau angenrheidiol mewn ffordd organig a heb ymyrraeth gan reoleiddwyr allanol i sbarduno newid. Mae gan y Cyngor fecanweithiau a phrosesau ar waith i sicrhau fod gwybodaeth allweddol am gydymffurfio â gofynion llywodraethu gwybodaeth yn cael ei chofnodi a’i dadansoddi fel bod modd sicrhau ymateb prydlon, newid gweithredol a datblygiad wedi’i dargedu.”*

Mae’r farn hon yn cyd-fynd â’r hunanasesiadau a luniwyd gan y Gwasanaethau.

Mae cydymffurfiaeth â pholisïau corfforaethol yn dal i fod yn dda, gyda’r defnydd o’r **Porth Polisi** yn helpu i sbarduno cydymffurfiaeth, a rhoddir diweddariadau rheolaidd i’r Prif Weithredwr a Phenaethiaid Gwasanaethau.

Mae’r system ‘4Policy’ yn darparu’r sicrwydd bod polisïau’n cael eu darllen a’u deall, sy’n lleihau’r risg o ran staff yn peidio â chydymffurfio â pholisïau corfforaethol.

Y gyfradd gwblhau gyfartalog ar hyn o bryd, o ran staff sy’n cwblhau’r ddau bolisi ar y **Porth Polisi**, yw 95% o’r staff cymwys. Mae 5% sy’n weddill, nad ydynt wedi cwblhau’r modiwlau, yn cynnwys aelodau staff newydd, staff sy’n absennol neu ar wyliau blynyddol, ynghyd â staff nad ydynt wedi cwblhau’r gwaith.




Gellir gweld dadansoddiad llawn yma.

Tra bo’r hyn a nodir uchod yn gadarnhaol, nid yw’r Porth Polisi yn cynnwys yr holl staff, ac amcangyfrifir nad yw 700 o staff, nad ydynt yn staff ysgol, yn cael mynediad i’r Porth. Nid yw unrhyw rai o’n staff a leolir mewn ysgolion yn cael mynediad i’r Porth Polisi ychwaith, ond mae’r holl bolisïau ar gyfer ysgolion ar gael ar MonIT ac yn hygyrch i staff a leolir mewn ysgolion.

Mae’r Gwasanaeth Dysgu ar hyn o bryd yn archwilio opsiynau o ran y modd gorau i fonitro cydymffurfiaeth staff a leolir mewn ysgolion gyda’r polisïau.

DRAFT




Fodd bynnag, mae'r gyfradd gwblhau o ran y modiwlau e-ddysgu ar y '**Learning Pool**' yn is. Ceir sawl rheswm dros hyn, gan gynnwys mynediad i liniaduron o ran rhai aelodau staff. Cynhwysir cyfanswm nifer staff yr awdurdod, gan gynnwys staff a leolir mewn ysgolion, yn ogystal â'r amser ychwanegol a fynnir i gwblhau'r modiwlau. Mae'r gwaith yn parhau er mwyn gwella'r gyfradd.

Mae'n ofynnol i ni gydymffurfio a Safonau'r Iaith Gymraeg:

- Cyflenwi gwasanaethau Cymraeg;
- Llunio polisi mewn modd sy'n hyrwyddo'r Gymraeg;
- Gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Hybu'r Gymraeg;
- Cadw cofnodion ynglŷn â'r Gymraeg.

Cynhaliodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ymarferiad siopwr cudd ar y Cyngor yn ystod 2019-20, ac o ran perfformiad y Cyngor, daeth i'r casgliad "***'roedd canlyniadau eich sefydliad yn ystod yr arolygon yn ganmoladwy iawn ac nid oes unrhyw faterion yn codi o'r canlyniadau sydd angen sylw***".

Yn ychwanegol i'r adroddiad hwn o flynyddoedd blaenorol, fel rhan o'i broses hunanreoleiddio, cynhaliodd y Cyngor arolwg yn ystod y flwyddyn gyda phob Gwasanaeth i sicrhau eu bod yn dal i gyflawni'r safonau yn ystod y pandemig Covid-19. Daeth yr Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ym Mehefin 2021, i'r casgliad "***nad oes heriau o ran cydymffurfio â'r Safonau Iaith a darparu gwasanaeth i'n cwsmeriaid yn eu dewis iaith.***"

Gellir cael rhagor o wybodaeth yn ein Hadroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg.

Mae **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** yn rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government' (CIPFA / Solace, 2016). Yn ystod 2021, cafwyd sicrwydd bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â phob un o'r saith egwyddor graidd:

| Egwyddorion Craidd y Fframwaith | Asesiad Cyffredinol | Casgliad yr Hunanasesiad |
|---|---|---|
| **Egwyddor A:** Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol | Da | Mae gan y Cyngor Sir brosesau gwneud penderfyniadau clir a thryloyw sy'n ymgorffori gwerthoedd moesegol cryf ac sy'n gyfreithlon. Mae'r codau ymddygiad yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer ymddwyn yn onest. |

DRAFT

| Egwyddorion Craidd y Fframwaith | Asesiad Cyffredinol | Casgliad yr Hunanasesiad |
|---|---|---|
| **Egwyddor B:** Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid | Da | Mae'r Cyngor yn bodoli i wasanaethu ei drigolion ac mae'n ddibynnol ar amrywiaeth eang o randdeiliaid i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Mae mecanweithiau ymgysylltu ac ymgynghori ar waith. |
| **Egwyddor C:** Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol | Da | Mae'r Cyngor Sir yn gweithio gyda chymunedau i gynllunio canlyniadau. Wrth bennu polisïau a strategaethau, mae'r Cyngor Sir yn edrych ar ganlyniadau yn y tymor hir, gan ystyried manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cynaliadwy. |
| **Egwyddor D:** Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu | Da | Mae'r Cyngor Sir yn gwneud penderfyniadau ar ymyriadau yn seiliedig ar ei weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau, gan ymgysylltu â chymunedau, rheoleiddwyr ac arbenigedd ymarferol swyddogion gwasanaeth proffesiynol. Mae'r cyfuniad hwn yn arwain at optimeiddio cyflawniad y deilliannau a fwriedir. |
| **Egwyddor E:** Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo | Da | Mae'r Cyngor Sir â'r strwythurau a'r arweinyddiaeth briodol yn ei lle a phobl a chanddynt y sgiliau a'r cymwysterau cywir i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithlon er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddeisyfir. Bod polisïau a strategaethau clir yn eu lle i brofi bod ganddo'r capasiti i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol ohono ynghyd â'r capasiti gweithredol. |
| **Egwyddor F:** Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref | Da | Mae gan y Cyngor system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso cyflawniad effeithiol ac effeithlon ei wasanaethu. Mae rheoli risg a rheolaethau mewnol yn rhannau hanfodol a phwysig o'r system rheoli perfformiad ac maent yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r canlyniadau sydd yng Nghynllun y Cyngor. |
| **Egwyddor G:** Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio | Da | Mae Aelodau Etholedig y Cyngor a'r Uwch Reolwyr yn atebol am wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau sy'n cael eu cefnogi gan archwiliadau mewnol ac allanol. Mae gweithgareddau'n cael eu hymgymryd â nhw mewn dulliau tryloyw a chlir y gall cydranddeiliaid eu deall ac ymateb iddynt. |

Ceir rhagor o wybodaeth am y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, gan gynnwys y dystiolaeth ategol, ar ein gwefan.

Ar y cyfan, ceir tystiolaeth ddigonol i gefnogi perfformiad **DA** ar gyfer yr adran hon.

## Meysydd i'w gwella

Rhestrir isod y meysydd i'w gwella a nodwyd ar gyfer yr adran Llywodraethu a Chydymffurfiaeth:

| Maes i'w wella | Sicrwydd |
|---|---|
| Sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â pholisïau trwy ddefnyddio'r Porth Polisi, a bod staff nad ydynt yn gallu cael mynediad i'r Porth Polisi yn gallu adolygu a derbyn y polisïau mewn modd sy'n gweithio iddynt hwy<br><br>Dylai'r Gwasanaeth Dysgu'n arbennig nodi opsiynau o ran y modd gorau i fonitro cydymffurfiaeth staff a leolir mewn ysgolion gyda'r polisïau | Y Tîm Arweinyddiaeth |
| Gweithredu'r model 'tair llinell sicrwydd' fel un dull o gasglu gwybodaeth i gynorthwyo i fapio sicrwydd ar gyfer y Cyngor | Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| Gwella cydymffurfiaeth staff yn erbyn yr holl fodiwlau e-ddysgu ar y Learning Pool | Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |

DRAFT

# B. Defnyddio Adnoddau

## Cyflwyniad

O ran cyflawni ei ddyletswydd i ddefnyddio ei adnoddau mewn modd economaidd ac effeithlon, mae'r rhan hon o'r hunanasesiad yn rhoi sylw arbennig i'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli ei bobl, ei gyllid, ac yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni ei nodau a'i amcanion.

Mae'r meysydd hyn yn darparu'r sicrwydd o ran p'un a ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol ai peidio, a ph'un a fydd modd gwneud gwelliannau yn y flwyddyn i ddod.

## Rheoli Pobl

### Trosolwg

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn dangos perfformiad **DA**.

Mae mentrau corfforaethol y llwyddwyd i fwrw ymlaen â hwy yn ystod y flwyddyn gan y swyddogaeth Adnoddau Dynol yn cynnwys:

- Ailgyflwyno'r rhaglen Hyfforddeion Corfforaethol
- Lansio Rhaglen Rheoli Môn (dull 3 haen i ddatblygu staff)
  - Rhaglen Academi Môn
  - Arweinyddion Môn
  - Twf a Datblygu Talent
- Datblygu polisi peilot 'gweithio Hybrid' ar gyfer staff a leolir mewn swyddfa

Mae'r **lefelau salwch** ar gyfer 2021/22 wedi cyflawni eu targed, a gellir eu cymharu â lefelau perfformiad y flwyddyn flaenorol. Gwelwyd gwelliannau o ran rheoli salwch o fewn Gwasanaethau, ynghyd â monitro gan y swyddogaeth AD, ac ymwybyddiaeth staff o bolisïau a phrotocolau a chydymffurfiaeth â hwy.

Ar y cyfan, bu nifer y **swyddi gweigion** yn isel, ond maent yn cynyddu, fel y mae'r gyfradd o ran **trosiant staff**.

Ar gyfartaledd, roedd y lefel o ran trosiant staff yn 10% ar gyfer 2021/22, sy'n cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y diwydiant o 15.5% ar gyfer trosiant staff.

Mae pob gwasanaeth wedi llunio drafft o'u **cynlluniau datblygu gweithlu** - dylai'r rhain fod yn ddogfennau byw, gyda'r holl faterion o ran y gweithlu a rheoli staff yn cael eu cydnabod fel maes blaenoriaeth i reolwyr ar bob lefel.

Cyflwynwyd proses Sgwrs Flynyddol Ar-lein (rhwng rheolwyr a staff unigol) trwy 'Learning Pool' yn ystod y 12 mis diwethaf i sicrhau y cynhelir sgyrsiau blynyddol rhwng rheolwyr a staff, ac y darperir tystiolaeth ohonynt i sicrhau eglurder o ran cyfeiriad, y disgwyliadau o ran perfformiad, a lles staff.

Mae canlyniadau'r arolwg staff (2022) hefyd yn cefnogi'r sgôr Da o ran rheoli pobl.

Gellir gweld enghreifftiau o'r canlyniadau isod:




Mae **4** o bob **5** aelod staff yn teimlo'n **falch** o gael gweithio i'r Cyngor

DRAFT


Byddai **4** o bob **5** aelod staff yn **argymell** y Cyngor fel cyflogwr





Mae **3** o bob **4** aelod staff yn credu bod eu gwaith yn cael ei **werthfawrogi** gan y Cyngor

Mae **3** o bob **4** aelod staff yn **siarad yn gadarnhaol** am y Cyngor i eraill



Mae'r canfyddiad 'da' hwn o safbwynt rheoli pobl yn Ebrill 2022, ynghyd â'r arolwg staff diweddaraf, yn adeiladu ar ganlyniadau arolwg staff 2020, a oedd yn cwestiynu'r modd yr oedd staff yn gwerthfawrogi'r gyfarwyddeb ddiwygiedig i weithio adref.

Tra bo hyn yn adlewyrchu sefyllfa gadarnhaol, nodir y bu anhawster o ran recriwtio a chadw staff yn fater a godwyd mewn Adolygiadau Gwasanaeth. O ganlyniad i archwiliad pellach, gwelir fod hyn yn dal i fod yn agwedd heriol ar ein gwaith o safbwynt rheoli pobl. Mae hyn yn brofiad cyffredin mewn Cynghorau a sectorau eraill, ynghyd â'r farchnad lafur ehangach ledled y DU, fel y nodwyd gan Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol (IIA).

## Meysydd i'w gwella

Felly nodir y **meysydd gwella allweddol** ar gyfer 2022/23 yn y tabl, fel a ganlyn:

| Maes i'w wella | Sicrwydd |
|---|---|
| Datblygu a chyflenwi cynllun gweithredu ar gyfer recriwtio a chadw staff | Y Tîm Arweinyddiaeth |
| Esblygiad pellach 'gweithio hybrid', gan gydbwyso'r gofynion o ran timau staff a pherfformiad, profiadau cwsmeriaid, iechyd a lles staff a dewis personol | Y Tîm Arweinyddiaeth |
| Darlledu cyfarfodydd hybrid ffurfiol y Cyngor mewn modd effeithiol a phroffesiynol | Y Tîm Arweinyddiaeth |

DRAFT

| Maes i'w wella | Sicrwydd |
|---|---|
| Sicrhau esblygiad pellach a chyflenwi cynlluniau datblygu gweithlu ar lefel Gwasanaethau unigol i gydbwyso perfformiad, moderneiddio, parhad busnes, iechyd a lles staff | Y Tîm Arweinyddiaeth |
| Cymryd camau pellach i wreiddio'r trefniant Sgwrs Flynyddol rhwng Rheolwyr ac aelodau staff | Adolygiadau Gwasanaeth |

DRAFT

# Adnoddau

## Trosolwg

Roedd yr ansicrwydd, y galwadau newidiol a’r cyfyngiadau wedi gwneud 2021/22 yn gyfnod eithriadol o heriol i gyflenwi gwasanaethau o safbwynt adnoddau a rheoli adnoddau. Yn ei archwiliad o gyfrifon, mae Archwilio Cymru’n nodi’n glir bod y pandemig “wedi cael effaith arwyddocaol ar bob agwedd ar ein cymdeithas” a’i fod yn brawf sylweddol o ymrwymiad y staff eu bod wedi llwyddo i alluogi’r archwiliad o’r cyfrifon trwy eu proffesiynoldeb fel tîm o ran y modd y gwnaethant gynorthwyo Archwilio Cymru dan amgylchiadau mor anodd.


Tra bu 2021/22 yn her, gwelwyd bod perfformiad cyffredinol nifer o wasanaethau, o ran y modd yr oeddynt yn defnyddio ac yn blaenoriaethu eu darpariaeth, yn ‘Dda’. Ystyriwyd fod tri gwasanaeth yn ardderchog - **Tai, Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ac Adnoddau Dynol a Thrawsnewid**.

Tai, o ganlyniad i’r defnydd effeithiol ac effeithlon a wneir o gyllid CRT/HRA, ynghyd â defnyddio cronfa gyffredinol y Cyngor i gyflenwi mwy o ddarpariaeth o safbwynt digartrefedd a chartrefi gweigion.

Defnyddiodd y gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (gyda chymorth corfforaethol) eu hadnoddau’n effeithiol i ail-dendro contract y gwasanaeth casglu gwastraff ar adeg anodd, a llwyddwyd i wella eu gwasanaeth casglu gwastraff gardd gwyrdd yn ystod yr un cyfnod.

Roedd y Gwasanaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid wedi rheoli eu hadnoddau mewn modd effeithlon er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu effeithiol yn yr ardal leol. Yn ogystal, llwyddwyd i alluogi staff a leolir mewn swyddfeydd i weithio o bell (ac yn ddiogel) trwy gynllun peilot Hybrid.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, bu modd i’r Cyngor –




Yn ogystal, mae Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi bod y Cyngor yn awdurdod sy’n cael ei reoli’n dda, ac mae hynny yn ei dro’n cyfrannu at sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau o’i adnoddau. Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar y 7fed o Fedi, 2021.

Yn anffodus, cafwyd tanwariant o ran gwariant cyfalaf, gyda phrosiectau’n cael eu gohirio o ganlyniad i’r pandemig, ynghyd ag effeithiau Brexit ar y sector adeiladu, ond rhoddwyd camau lliniaru ar waith i fynd i’r afael â’r mater ar gyfer 2022/23.

Roedd yr archwiliad o ddatganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2020/21, gan Archwilio Cymru, yn farn archwilio ddiamod unwaith eto. Fodd bynnag, dywedwyd ganddynt “nodwyd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 15 Mehefin 2021 fel maes i'w wella yn yr adroddiad Archwilio Cyfrifon (ISA 260)”. Yn o’gystal, ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22, cofnododd y Cyngor danwariant net o £4.798m (3.25%), gyda'r holl Wasanaethau yn nodi tanwariant yn erbyn eu cyllideb. Arweiniodd hyn at gynnydd ym malansau cyffredinol y Cyngor i £12.050m, sy'n gyfwerth ag 8.17% o gyllideb refeniw net 2021/22. Mae hyn yn cymharu â'r ffigwr targed o £9.0m (6.11%) gafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

Roedd cronfeydd wrth gefn clustnodedig, a gedwir gan y Cyngor i gyllido prosiectau yr ymrwymwyd iddynt ar sail unwaith ac am byth, i gyllido costau a ragwelir yn y dyfodol (e.e. colledion nad oedd yswiriant ar eu cyfer) a chyllid grant nad oedd wedi’i ddefnyddio, yn £23.182m ar 31 Mawrth 2022, cynnydd o £7.726m yn ystod y flwyddyn. Yr hyn oedd i gyfrif am y rhan fwyaf o'r codiad oedd y cyllid ychwanegol heb ei neilltuo a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, a ddarparwyd i helpu Cynghorau i dalu costau’r galw cynyddol a’r cynnydd mewn costau.

Cwblhawyd y gwaith ar y Cymhorthdal Budd-daliadau Tai 2017/18 yn 2020/21. Fodd bynnag, mae **Archwilio Cymru** yn nodi bod eu gwaith ar archwilio hawliadau ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018/19, 2019/20 a 2020/21 yn parhau. Nodir ganddynt hefyd “mae ein gwaith hyd yma wedi nodi nifer o faterion gyda'r hawliadau a materion yn ymwneud ag amser staff i ddelio ag ymholiadau’r archwilydd. Mae hwn yn faes lle mae angen i'r cyngor flaenoriaethu ymdrech yn ystod y misoedd nesaf fel y gall y cylch archwilio ddod yn fwy amserol.”

Yn ogystal, cafwyd tystiolaeth o’r angen i flaenoriaethu a moderneiddio yn ystod yr adolygiadau gwasanaeth, ac wedyn gan Y Tîm Arweinyddiaeth sydd wedi’i ffurfio o’r newydd. Bydd bwrw ymlaen â’r agwedd hon ar draws pob gwasanaeth (yn enwedig y gwasanaethau mwy) yn cynorthwyo’r Cyngor yn ei ymdrechion i wneud defnydd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl o’i adnoddau yn y dyfodol. O ystyried y pwysau a’r costau ychwanegol sy’n parhau ar hyn o bryd, gyda’r rhybudd gan Fanc Lloegr ynghylch cyfnod o arafu economaidd fel y mae cyfraddau llog a chwyddiant yn codi, bydd hyn yn faes allweddol i’w wella o ran y Cyngor dros y 12 mis i ddod.

## Meysydd i’w gwella

Ein meysydd gwella allweddol ar gyfer 2022/23 yw –

| Maes i’w wella | Sicrwydd |
|---|---|
| Bydd y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn ehangu ei raglen Dechrau’n Deg ar draws yr ynys, yn hytrach nag mewn rhai ardaloedd. Yn y diwedd, bydd hyn yn lleihau’r angen i blant ddod i mewn i’r gwasanaethau statudol ac yn lleihau ein poblogaeth o Blant sy’n Derbyn Gofal | Panel Sgriwtini y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Bod y Cyngor yn datblygu ac yn mabwysiadu strategaeth gyfalaf sy’n cyd-fynd â chynllun newydd y Cyngor (2022/27). | Y Pwyllgor Gwaith |
| Lleihau’r achosion o fethu â chwblhau gwaith ar yr hawliadau Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y dyfodol trwy gytuno ar amserlen gyda’r archwilwyr allanol, ynghyd ag adolygu capasiti o ran staff | Adroddiadau Archwilio Cymru |
| Bod y Cyngor yn adolygu a diwygio ei broses flynyddol ar gyfer pennu’r gyllideb i sicrhau y gellir rhoi camau ar waith ar gyfer 2023/24 i liniaru’r pwysau cynyddol. | Y Pwyllgor Gwaith |

# Cydweithredu ac Integreiddio

## Trosolwg

Â hwnnw'n sefydliad bach ac arloesol, mae'r Cyngor yn parhau i goleddu cyfleoedd i gydweithredu mewn modd effeithiol ac ystyrlon fel rhan o'i werthoedd craidd, ac fel modd o weithio tuag at wella pa mor effeithlon ac effeithiol ydyw o ran ymateb i anghenion, cyfleoedd a heriau yn yr ardal leol. Mae sawl trefniant cydweithredol, ffurfiol ac anffurfiol, wedi profi i fod yn amhrisiadwy o safbwynt llywio gwaith y Cyngor a'r ynys a'u cynorthwyo i ymateb i heriau ac ansicrwydd y pandemig.

Mae'r asesiad hwn yn cynorthwyo i ddarparu tystiolaeth o ran y modd y mae'r Cyngor yn coleddu'r pum dull o weithio o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac ym mha agweddau y mae'n gwneud hynny.

Cafwyd bod saith gwasanaeth, o'r naw ohonynt o fewn y Cyngor, yn **Ardderchog** o ran yr adran hon - y **Gwasanaethau i Oedolion, y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, Tai, Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, Dysgu, Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a Thrawsnewid**, o ganlyniad i'w hymdrechion cydweithredol parhaus ar draws nifer o ffrydiau gwaith wrth gyflenwi gweithgareddau busnes arferol, ynghyd ag ymateb y Cyngor i dirwedd fythol newidiol y pandemig.

Ymhlith yr enghreifftiau o'r gwaith a gyflawnwyd y mae (ac nid yw hon yn rhestr gyflawn):

- Y Fforwm Amddiffyn Oedolion Bregus rhwng Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai
- Byrddau Diogelu Iechyd Covid-19 – gyda phob un o'r 22 Awdurdod Lleol, a gadeirir gan Lywodraeth Cymru
- Grŵp Gweithredol Taclo Tlodi Ynys Môn - CSYM, DWP, CAB Ynys Môn
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Mae'r tri Thîm Adnoddau Cymunedol yn ymateb i achosion cymhleth fel partneriaeth, ac yn parhau i gryfhau ei berthynas â'r trydydd sector, darparwyr gofal a phreswylwyr
- Rhaglen Gyflenwi Partneriaeth (Penaethiaid Safonau Masnach Cymru a Llywodraeth Cymru)
- Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn sy'n cynnwys partneriaethau ag amryw endidau cyhoeddus a phreifat ym maes twristiaeth
- Grŵp Banciau Bwyd Ynys Môn a chanddo bartneriaethau hanfodol â banciau bwyd lleol a'r CAB
- Llunio Lle, sy'n ymwneud â chydweithio gyda'r 3ydd Sector a 5 cynghrair ar draws yr ynys i gefnogi cymunedau i gymryd perchnogaeth o'u blaenoriaethau a'u hanghenion eu hunain.
- Grŵp Atal a Gwyliadwriaeth Covid-19 Ynys Môn (Partneriaeth Ranbarthol)

Ymgymerwyd â rhagor o waith hefyd i wella ystod ac ansawdd gwasanaethau a'r profiad i gwsmeriaid a ddarperir trwy Cyswllt Môn, a gyflawnir mewn modd cydweithredol ac integredig i gefnogi nifer o wasanaethau.

Yn ogystal, roedd yr arolwg staff yn dangos bod staff yn teimlo'n gryf bod y Cyngor yn gwneud yn dda o safbwynt ein dull cydweithredol o weithio. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr ymhlith aelodau staff bod y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar weithio mewn partneriaeth a chydweithio, ac nad oedd unrhyw feysydd i'w gwella.



DRAFT

Felly, ar y cyfan, ceir tystiolaeth ddigonol i ddangos bod perfformiad y Cyngor Sir yn **ARDDERCHOG** o safbwynt ei waith cydweithredol ac integreiddio â sefydliadau eraill, ond nodwyd rhagor o feysydd i'w gwella ar gyfer eu gwireddu yn ystod 2022/23.

## Meysydd i'w gwella

Dyma'r meysydd i'w gwella:

| Maes i'w wella | Sicrwydd |
| --- | --- |
| Parhau i ddatblygu ac adolygu partneriaethau i sicrhau eu bod yn ateb y gofyn ac yn cyd-fynd â chynllun newydd a diwygiedig y Cyngor (2022/27), ynghyd â strategaethau a rhaglenni eraill | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio |
| Sefydlu dull cydweithredol ar y cyd i gofnodi allbynnau a mesurau ar draws gweithlu'r Tîm Adnoddau Cymunedol sy'n lleoli'r proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol | Panel Sgriwtini y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Adolygu'r broses Un Pwynt Mynediad (SPOA) i ganfod yr agweddau y gellir eu gwella a sut y gellir gwneud hynny | Panel Sgriwtini y Gwasanaethau Cymdeithasol |

DRAFT

# C. Rheoli Risg

## Cyflwyniad

Mae Rheoli Risg a'i ddefnydd o fewn sefydliad cymhleth fel Cyngor Sir yn angenrheidiol i sicrhau y cyflawnir penderfyniadau, lefelau perfformiad a darpariaeth gwasanaeth mewn modd mor effeithiol ac effeithlon â phosibl. Mae'r defnydd o reoli risg wedi gwella dros dymor y weinyddiaeth ddiwethaf, a chafwyd tystiolaeth a oedd yn cyd-fynd â hyn trwy sefydlu Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng (EMRT), sef fforwm a oedd yn rhan annatod o'r gwaith o ddelio ag ymateb y Cyngor i'r heriau yn sgil mynd i'r afael â'r pandemig,

Mae'r adran hon yn cyfuno canfyddiadau o Archwiliadau Mewnol a gynhaliwyd, ynghyd â gan Archwilwyr Allanol a Chymheiriaid, sy'n amlygu'r risgiau y mae angen eu lliniaru, yn ogystal â threfniadau'r Cyngor o ran Rheoli Risg.

# Archwilio a Risg

## Trosolwg

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, cafodd sawl gwasanaeth eu harchwilio'n allanol, yr oedd y mwyafrif ohonynt yn arwain at asesiadau cadarnhaol. Adlewyrchir hyn yn y graddiad **DA** yn gyffredinol ar gyfer rheoli risg o safbwynt perfformiad gwasanaethau. Trwy'r Adolygiadau Gwasanaeth i gyd, roedd yn glir bod yr argymhellion o'r Archwiliadau Mewnol, yr Archwilwyr Allanol a Chymheiriaid yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro.

- Cwblhaodd **AGC/CIW** arolwg o'r gwasanaethau i oedolion hŷn a oedd yn canolbwyntio ar wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar.
    - Roedd yr arolwg yn nodi cryfderau, gan gynnwys *"mae atal yn eitem bwysig ar agenda'r awdurdod lleol"* ac *"mae'r dulliau o gyfathrebu â phobl sy'n cysylltu â'r awdurdod lleol i gael cymorth yn barchus ac yn seiliedig ar gryfderau, yn aml yn gydweithredol, ac wedi'u seilio ar gydberthynas gyfartal ar y cyfan"*
    - Yn ogystal, daeth yr arolwg o hyd i rai meysydd i'w gwella o ran lles, llais a dewis pobl, partneriaethau, integreiddio a chyd-gynhyrchu, ynghyd ag atal ac ymyrraeth gynnar, sydd wedi arwain at ffurfio cynllun gweithredu gan y Gwasanaethau Oedolion Hŷn a gaiff ei fonitro gan Fwrdd Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

  Gellir gweld adroddiad yr arolwg yma

- O ganlyniad i bandemig Covid-19, mae Estyn wedi atal ei arolygiadau o ysgolion, ac wedi cadw mewn cysylltiad â darparwyr addysg o bell. Nid oes unrhyw ysgolion o dan statws arolygu dilynol **Estyn**, sy'n rhoi sicrwydd bod dysgwyr yn cyflawni mewn lleoliadau addysg ar yr ynys.

- Cyhoeddodd **Archwilio Cymru** adroddiad cadarnhaol ym mis Tachwedd 2019 ar **'Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o'r Trefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth'** a daethant i'r casgliad "mae'r Cyngor wedi ystyried a defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth lunio'r 'Trefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar ac i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth', ond ceir cyfleoedd i sefydlu'r pum ffordd o weithio ymhellach".

- Roedd y Cyngor hefyd yn rhan o **Adolygiadau Cenedlaethol** a gyflawnwyd gan Archwilio Cymru. Adroddir ymateb y Cyngor i'r Adolygiadau Cenedlaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn flynyddol, a gellir ei weld yma. Dyma'r Adolygiadau Cenedlaethol yr ymgymerwyd â hwy yn ystod 2020/21:


- ‘[Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn](#)’
- ‘[Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - Adolygiad o Gynnydd Bargen Dwf Gogledd Cymru’](#)
- ‘[Gwasanaethau Dewisol (Ebrill 2021)](#)’
- ‘[Adfywio Canol Trefi yng Nghymru (Medi 2021)](#)’

Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr Archwiliadau Allanol yr ymgymerwyd â hwy ar gyfer [2020-21](#) trwy glicio ar yr hyperddolenni.

- Darparodd pob gwasanaeth dystiolaeth bod strwythurau ar waith i ymateb i archwiliad mewnol, gyda llawer o wasanaethau’n gwella cydweithrediad ac ymgysylltiad ag Archwiliadau Mewnol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn enwedig yng ngolau’r archwiliadau yr ymgymerwyd â hwy ers dechrau’r pandemig.

- Yn yr Adroddiad Blynyddol diwethaf ar Archwilio Mewnol, nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol, *“ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. . .mae gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Er nad wyf yn ystyried bod unrhyw feysydd o bryder corfforaethol sylweddol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd i sicrhau fod amcanion yn cael eu cyflawni, a’u bod yn cael eu monitro.”*

- Nododd Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2021-22 hefyd eu bod “*yn gallu darparu sicrwydd **‘Rhesymol’** neu well ar gyfer 64% o’r archwiliadau a gynhaliwyd gennym yn ystod 2021/22. Derbyniodd saith archwiliad (28%) sicrwydd **‘Cyfyngedig’** yn ystod y flwyddyn, o gymharu â phump (22%) yn ystod 2020/21.*




Mae’r adroddiad yn nodi ymhellach, yn unol â’u protocol, maent *“yn ailymweld yn ffurfiol â’r holl ‘Faterion/Risgiau’ a godwyd mewn adroddiadau sicrwydd ‘**Cyfyngedig**’, ar derfyn y cyfnod gweithredu, er mwyn sicrhau eu bod yn cael sylw effeithiol. (Fe wnaethant) ailedrych yn ffurfiol â’r saith adroddiad â gradd sicrwydd ‘**Cyfyngedig**’. Yn dilyn (eu) hailymweliad, (roeddynt) yn gallu codi’r sicrwydd i ‘**Rhesymol**’ mewn tri o’r adroddiadau, a (byddant) yn parhau i fonitro ac adrodd ar y pedwar sy’n weddill.”*

Caiff gwelliannau yn erbyn y sicrwydd cyfyngedig a ddarperir yma eu blaenoriaethu gan y gwasanaethau perthnasol dros y 12 mis i ddod.

- Mae **cofrestrau risg** yn cael eu huwchlwytho, eu diweddaru a'u monitro'n chwarterol ar '**4Risk**' ac mae'r gofrestr risg strategol yn cael ei hadolygu'n gyson gan Y Tîm Arweinyddiaeth (TAS/SLT) ac fe'i hystyrir hefyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn. Mae'r defnydd o '4Risk' wedi'i wreiddio bellach o fewn cyfarfodydd rhithiol chwarterol y gwasanaethau. Bu'r defnydd o gofrestrau risg a'u camau lliniarol yn bwysig yn ystod y pandemig, gyda'r Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng (EMRT) yn eu hadolygu a'u diweddaru'n wythnosol i lywio penderfyniadau'r Cyngor a'u camau gweithredu mewn ymateb i'r pandemig.

- Er eu bod wedi'u datblygu a'u gwreiddio o fewn darpariaeth gwasanaeth dydd i ddydd, ceir awydd i ddatblygu eu defnydd y fewn y broses benderfynu gorfforaethol. Fel y cyfryw, caiff adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Risg ei gwblhau yn ystod y flwyddyn a fydd yn helpu i ddatblygu'r berthynas hon.

- Cyflwynwyd y 'Diweddariad Rheoli Risg' i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 8fed Chwefror ac roedd y cofnodion yn adlewyrchu bod y Rheolwr Risg ac Yswiriant wedi nodi "*bod yr Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) wedi ymgymryd ag adolygiad trylwyr o'r gofrestr risg yn ei chyfanrwydd a bod yr UDA wedi penderfynu canolbwyntio ar y risgiau hynny a fyddai'n arwain at gyflawni blaenoriaethau strategol, ac felly mae cofrestr risgiau strategol newydd, sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau corfforaethol, wedi cael ei datblygu yn lle'r gofrestr risgiau corfforaethol.*"

- Yn dilyn yr adolygiad, mae'r UDA wedi nodi pum risg gweddilliol coch/critigol i gyflawni amcanion corfforaethol a strategol y Cyngor ac mae'r rhain yn ymwneud â rheoli'r gweithlu, parhad TG, diogelwch seiber, moderneiddio ysgolion ac addasrwydd parhaus asedau ffisegol.

- Roedd pob Gwasanaeth yn credu bod eu perfformiad yn dda. **Mae'r dystiolaeth uchod ac o fewn Hunanasesiadau'r Gwasanaethau'n cadarnhau hyn, ac mae'n deg i ddweud bod perfformiad cyffredinol y Cyngor o safbwynt rheoli risg yn DDA.**

## Meysydd i'w gwella

Y meysydd i'w gwella ar gyfer 2022/23 yw:

| Maes i'w wella | Sicrwydd |
|---|---|
| Rhoi argymhellion yr Archwiliadau Allanol (cenedlaethol a lleol) ar waith a'u monitro gan ddefnyddio '4Action' | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| Adolygu a diwygio'r strategaeth rheoli risg, y polisi a'r canllawiau, a fydd yn ffurfio fframwaith clir a chryno o safbwynt rheoli risg, i'w dilyn ar draws y Cyngor | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| Parhau i roi disgwyliadau ar waith o safbwynt rheoleiddio ar adeg o newid, trwy'r Ddeddf Llywodraeth Leol | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |

# Diogelu Corfforaethol

## Trosolwg

Cyflwynwyd yr adran hon o'r Adolygiadau Gwasanaeth i roi sicrwydd i'r **Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol** bod y Cyngor yn ymgymryd â'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau'n effeithiol.

Roedd pob un ond dau o'r Gwasanaethau yn nodi perfformiad Da.

Y ddau wasanaeth yr ystyriwyd eu bod yn **ardderchog oedd y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion**, sydd hefyd yn dylanwadu ac yn llywio dull gweithio'r Cyngor o ran Diogelu Corfforaethol, cynlluniau a phartneriaethau rhanbarthol.

Mae'n ofynnol i staff dderbyn y **Polisi Diogelu Corfforaethol** drwy'r **Porth Polisi** ers mis Rhagfyr 2018. Gwelwyd y diweddariad diwethaf o ran cydymffurfiaeth yn erbyn y polisi gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2019, gyda 95% o'r staff wedi darllen a derbyn y polisi. Cyflwynwyd y polisi i'w ailddeerbyn ym mis Mai 2022 a bydd data cydymffurfiaeth yn cael ei adrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth.

Mae'r **Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol** yn rhoi sicrwydd i Aelodau Etholedig, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Statudol bod arferion a threfniadau'r Cyngor o safbwynt diogelu yn gadarn. Mae'n cyfarfod yn chwarterol, fel rhan o gyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth Corfforaethol. Mae hyn yn sicrhau bod pob Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth yn cael dylanwadu ar waith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol, ynghyd â llywio'r gwaith hwnnw. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar gamau i ganfod ac atal radicaleiddio, caethwasiaeth fodern, trais yn erbyn merched, cam-drin rhywiol a cham-drin domestig.

Ceir cynrychiolwyr o bob Gwasanaeth ar y **Bwrdd Diogelu Corfforaethol Gweithredol**, er y gellid gwella lefelau presenoldeb rhai o'r gwasanaethau. Datblygwyd hunanasesiad, a gyflawnir yn flynyddol, i sicrhau bod pob Gwasanaeth yn cydymffurfio â'r polisi. Cynllunnir cynllun gweithredu wedyn, a gaiff ei fonitro gan y Bwrdd.

Mae'r cynllun gweithredu presennol yn canolbwyntio ar:

- Arweinyddiaeth a Llywodraethu Corfforaethol
- Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth
- Gweithlu Diogel a Medrus
- Cymorth ac Ymyraethau Effeithiol
- Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynir

Mae rhaglen hyfforddiant sylfaenol a chyffredinol ynghylch diogelu ar gael, ac mae angen i wasanaethau fapio eu hanghenion yn unol â'r Fframwaith Hyfforddiant Diogel, er mwyn bwydo i mewn i'r rhaglen gorfforaethol. Darperir hyfforddiant arbenigol hefyd, yn unol â'r anghenion a nodwyd o ran y gweithlu.

Mae nifer o fodiwlau e-ddysgu ar gael i staff hefyd:

| Polisi / Modiwl | Y ganran sydd wedi'u cwblhau |
|---|---|
| **Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rywiol****** | 71% |

DRAFT

| Polisi / Modiwl | Y ganran sydd wedi'u cwblhau |
|---|---|
| **GDPR****** | 82% |
| **Caethwasiaeth Fodern****** | 82% |
| **Prevent****** | 79% |

Ar y cyfan, o safbwynt corfforaethol, byddai'r dystiolaeth yn arwain at berfformiad **Da** ar gyfer y **Cyngor**.

## Meysydd i'w Gwella

Gellir gweld isod y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr Adolygiadau Gwasanaeth. Cynigir y caiff y rhain eu monitro gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol dros y 12 mis nesaf i sicrhau y caiff y gwelliannau hyn eu cyflawni.

| Maes i'w wella | Sicrwydd |
|---|---|
| Dylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol adolygu pob ymateb gan y gwasanaethau i sicrhau eu bod yn fodlon gyda graddiad perfformiad Da ar gyfer Diogelu Corfforaethol | Y Bwrdd Diogelu Corfforaethol |
| Dylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol gytuno ar gynllun gweithredu yn dilyn cwblhau hunanasesiadau gan y Gwasanaethau, a dylai'r bwrdd barhau i'w fonitro wrth fynd ymlaen | Y Bwrdd Diogelu Corfforaethol |

DRAFT

## Casgliad Cyffredinol

Ar y cyfan, mae perfformiad pob Gwasanaeth ar hyn o bryd yn Dda, gyda

*"Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol"*

Hefyd, mae'r **rhagolygon y byddant yn gwella** yn **DDA**, a ddiffinnir ymhellach fel -

"Gwasanaeth effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda, ac mae'n gwybod pa feysydd y mae angen eu gwella. Trwy ganfod y gefnogaeth iawn a rhoi camau gweithredu ar waith, mae gan y gwasanaeth y potensial i wneud yn well fyth".

Ceir tystiolaeth o hyn hefyd trwy blotio ar y matrics a atodir i'r adroddiad hwn bod pob Gwasanaeth yn deall pa mor dda (neu wan) yw ei berfformiad, ynghyd â pha mor gadarn yw'r rhagolygon y bydd yn gwella.

Mae hyn yn darparu sicrwydd bod y Cyngor yn gyffredinol yn gwneud cynnydd o safbwynt ei daith tuag at **Welliant Parhaus**, er yr heriau a'r ansicrwydd a grëwyd gan y pandemig.

Gallwn nodi'n hyderus bod y Cyngor bob amser yn ceisio gwella'r modd y darperir gwasanaethau trwy -

- newid prosesau,
- moderneiddio,
- lleihau gwastraff a
- gwella ansawdd.

Ceir tystiolaeth trwy'r Adolygiadau Gwasanaeth yn eu cyfanrwydd, ac mewn adroddiadau cysylltiedig, bod y gwelliant parhaus hwn wedi'i wreiddio ym mhob maes Gwasanaeth.

Mae arweinyddiaeth ystyrlon ac effeithiol o safbwynt gwleidyddol a chorfforaethol, ynghyd â staff ymroddedig, ymrwymedig, sy'n gweithio'n galed, yn cymell y perfformiad hwn, ynghyd â'r ymrwymiad i foderneiddio a chyflawni gwelliannau parhaus, gan gyflenwi gwasanaethau effeithiol a chydweithio mewn modd ystyrlon.

Mae cynlluniau effeithiol ar waith i sicrhau y bydd y Cyngor newydd yn parhau i fwrw ymlaen â'r daith hon rhwng 2022 a 2027.

Y Tîm Arweinyddiaeth yw perchennog y cynllun gweithredu moderneiddio a gwella cysylltiedig, ac adroddir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn chwarterol ynghylch y cynnydd a wneir.

.




DRAFT

# Datganiad Sefyllfa Gwasanaethau'r Cyngor - 2022

| Categori Hunanasesiad | Categorïau Tystiolaeth | Oedolion | Plant | Busnes y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Tai | Dysgu | Adnoddau | Trawsnewid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Perfformiad | Adroddiadau Perfformiad | Da | Da | Da | Digonol | Da | Rhagorol | Da | Da | Rhagorol |
| | Gwasanaethau i Gwsmeriaid | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Da / Digonol | Da |
| | Llywodraethu a Chydymffurfiaeth | Da | Da | Da | Da | Digonol | Da | Da | Da | Da |
| Defnyddio Adnoddau | Datblygu'r Gweithlu a Rheoli Pobl | Da | Da | Digonol | Da | Da | Rhagorol | Da | Da / Digonol | Da |
| | Adnoddau | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol |
| | Cydweithredu ac Integreiddio | Rhagorol | Rhagorol | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Rhagorol |
| Rheoli Risg | Adroddiadau Rheoleiddio Allanol / Mewnbwn gan Gymheiriaid | Da | Da | Da | Amherthnasol | Amherthnasol | Da | Da | Da / Digonol | Da |
| | Archwilio Mewnol | Da | Da | Da | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Da | Digonol / Da | Da |
| | Diogelu Corfforaethol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da |

Tudalen 38

## Matrics




DRAFT

<u>Allwedd</u>

GO – Gwasanaethau Oedolion, BC – Busnes y Cyngor, PT – Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, Tai – Tai, PGE – Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, D – Dysgu, A – Adnoddau, RDE – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, T – Trawsnewid

## Mesydd a Nodwyd i'w Gwella

| Maes i'w wella | Sicrwydd |
|---|---|
| **Parhau i fonitro a gwella'r dangosyddion a effeithiwyd gan y pandemig coronafeirws i sicrhau y caiff unrhyw risgiau cysylltiedig eu rheoli'n briodol** | Adroddiadau Monitro Chwarterol y Cerdyn Sgorio |
| **Gwella'r dangosydd o ran canran y gwastraff a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl** | Adroddiadau Monitro Chwarterol y Cerdyn Sgorio |
| **Gwella perfformiad o fewn y gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, gyda sylw arbennig i ddangosyddion o fewn y swyddogaeth Cynllunio** | Adroddiadau Monitro Chwarterol y Cerdyn Sgorio |
| **Defnyddio meddalwedd i ddod yn fwy ymwybodol o ddata ac yn fwy gwybodus i wneud penderfyniadau hyd yn oed mwy effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth** | Y Bwrdd Rhaglen |
| **Datblygu modd i gyfathrebu perfformiad y Cyngor i gynulleidfa ehangach o ran staff** | Y Tîm Arweinyddiaeth |
| **Rhoi mwy o gyfleoedd i breswylwyr a rhanddeiliaid i sicrhau y clywir eu llais trwy fabwysiadu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sydd wedi'i hadolygu a'i hailwampio ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig** | Y Pwyllgor Gwaith |
| **Cael adborth ar brofiadau cwsmeriaid o ran y System Ffôn Gorfforaethol a'r switsfwrdd i lywio gwelliannau at y dyfodol** | Y Tîm Arweinyddiaeth |
| **Parhad pellach y newid o ran y sianel ddigidol trwy lansio 'Sgwrsfot' dwyieithog 'Mona' i hwyluso chwiliadau digidol a wneir gan gwsmeriaid ynghyd â phrofiadau ar-lein** | Y Tîm Arweinyddiaeth |
| **Moderneiddio ein dulliau gweithio, o wasanaethau i gwsmeriaid i brofiad mwy cyflawn i gwsmeriaid** | Y Tîm Arweinyddiaeth |
| **Sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â pholisïau trwy ddefnyddio '4Policy', a bod staff nad ydynt yn gallu cael mynediad i '4Policy' yn gallu adolygu a derbyn y polisïau mewn modd sy'n gweithio iddynt hwy**<br><br>**Dylai'r Gwasanaeth Dysgu'n arbennig nodi opsiynau o ran y modd gorau i fonitro cydymffurfiaeth staff a leolir mewn ysgolion gyda'r polisïau** | Y Tîm Arweinyddiaeth |
| **Gweithredu'r model 'tair llinell sicrwydd' fel un dull o gasglu gwybodaeth i gynorthwyo i fapio sicrwydd ar gyfer y Cyngor** | Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Gwella cydymffurfiaeth staff yn erbyn yr holl fodiwlau e-ddysgu ar y Learning Pool** | Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Datblygu a chyflenwi cynllun gweithredu ar gyfer recriwtio a chadw staff** | Y Tîm Arweinyddiaeth |

| Maes i'w wella | Sicrwydd |
| --- | --- |
| **Esblygiad pellach 'gweithio hybrid', gan gydbwyso'r gofynion o ran timau staff a pherfformiad, profiadau cwsmeriaid, iechyd a lles staff a dewis personol** | Y Tîm Arweinyddiaeth |
| **Darlledu cyfarfodydd hybrid ffurfiol y Cyngor mewn modd effeithiol a phroffesiynol** | Y Tîm Arweinyddiaeth |
| **Sicrhau esblygiad pellach a chyflenwi cynlluniau datblygu gweithlu ar lefel Gwasanaethau unigol i gydbwyso perfformiad, moderneiddio, parhad busnes, iechyd a lles staff** | Y Tîm Arweinyddiaeth |
| **Cymryd camau pellach i wreiddio'r trefniant Sgwrs Flynyddol rhwng Rheolwyr ac aelodau staff** | Y Tîm Arweinyddiaeth |
| **Bydd y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn ehangu ei raglen Dechrau'n Deg ar draws yr ynys, yn hytrach nag mewn rhai ardaloedd. Yn y diwedd, bydd hyn yn lleihau'r angen i blant ddod i mewn i'r gwasanaethau statudol ac yn lleihau ein poblogaeth o Blant sy'n Derbyn Gofal** | Pwyllgor Sgriwtini y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Bod y Cyngor yn datblygu ac yn mabwysiadu strategaeth gyfalaf sy'n cyd-fynd â chynllun newydd y Cyngor (2022/27).** | Y Pwyllgor Gwaith |
| **Lleihau'r achosion o fethu â chwblhau gwaith ar yr hawliadau Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y dyfodol trwy gytuno ar amserlen gyda'r archwilwyr allanol, ynghyd ag adolygu capasiti o ran staff** | Adroddiadau Archwilio Cymru |
| **Bod y Cyngor yn adolygu a diwygio ei broses flynyddol ar gyfer pennu'r gyllideb i sicrhau y gellir rhoi camau ar waith ar gyfer 2023/24 i liniaru'r pwysau cynyddol.** | Y Pwyllgor Gwaith |
| **Parhau i ddatblygu ac adolygu partneriaethau i sicrhau eu bod yn ateb y gofyn ac yn cyd-fynd â chynllun newydd a diwygiedig y Cyngor (2022/27), ynghyd â strategaethau a rhaglenni eraill** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Sefydlu dull cydweithredol ar y cyd i gofnodi allbynnau a mesurau ar draws gweithlu'r Tîm Adnoddau Cymunedol sy'n lleoli'r proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol** | Panel Sgriwtini y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Adolygu'r broses Un Pwynt Mynediad (SPOA) i ganfod yr agweddau y gellir eu gwella a sut y gellir gwneud hynny** | Panel Sgriwtini y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Rhoi argymhellion yr Archwiliadau Allanol (cenedlaethol a lleol) ar waith a'u monitro gan ddefnyddio '4Action'** | Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Adolygu a diwygio'r strategaeth rheoli risg, y polisi a'r canllawiau, a fydd yn ffurfio fframwaith clir a chryno o safbwynt rheoli risg, i'w dilyn ar draws y Cyngor** | Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |

| Maes i’w wella | Sicrwydd |
|---|---|
| **Parhau i roi disgwyliadau ar waith o safbwynt rheoleiddio ar adeg o newid, trwy’r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** | Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dylai’r Bwrdd Diogelu Corfforaethol adolygu pob ymateb gan y gwasanaethau i sicrhau eu bod yn fodlon gyda graddiad perfformiad Da ar gyfer Diogelu Corfforaethol** | Y Bwrdd Diogelu Corfforaethol |
| **Dylai’r Bwrdd Diogelu Corfforaethol gytuno ar gynllun gweithredu yn dilyn cwblhau hunanasesiadau gan y Gwasanaethau, a dylai’r bwrdd barhau i’w fonitro wrth fynd ymlaen** | Y Bwrdd Diogelu Corfforaethol |

DRAFT

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Cyngor Sir** |
| Dyddiad: | **27 Hydref 2022** |
| Pwnc / Testun: | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021/22** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cynghorydd Robin W Williams** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Carys Edwards** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Gethin Morgan**<br>01248 752111<br>Gethinmorgan@Ynysmon.Gov.Uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**1** Yn unol a'r cyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r cyngor lunio a chyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Mae'r ddogfen hon yn ddogfen sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwelliannau a'r blaenoriaethau amlinellwyd gan y Cyngor.

**2** Mae'r papur hwn yn amlinellu ein Hadroddiad Perfformiad sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2021/22.

**3** Mae'n ddiweddariad ar gynnydd y cyngor yn erbyn -

- Dogfen Cyflawni Flynyddol ar gyfer 2020-22
- Cynllun Trosiannol 22/23.

**4** Gofynir i'r Cyngor felly:

**Cytuno cynnwys yr Adroddiad Perfformiad 2021/22 a'i fabwysiadu fel adlewyrchiad teg a chyflawn o waith yr Awdurdod dros y cyfnod hynny.**

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Amherthnasol

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn rhoi cipolwg ar y gwaith a wnaed gan y Cyngor dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn ogystal â pherfformiad DPA yn erbyn Dogfen Gyflenwi Flynyddol y Cyngor ar gyfer 2020-22, Cynllun Trosiannol 2022/23 ac Cynllun y Cyngor.<br><br>Mae'r 3 amcan lleisant, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol gan mai adroddiad o waith a fu ydyw. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Amh. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael | Ymgynghorwyd â thrigolion Ynys Môn cyn drafftio Cynllun y Cyngor yn 2017 |

| | | |
|---|---|---|
| | effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan Sgriwtini Corfforaethol ar y 19/10 |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Adroddiad Perfformiad 2021/22 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Dogfen Cyflawni Blynyddol 2020-22<br>Cynllun Trosiannol 2022-23<br>Cynllun y Cyngor 2017-22 |




# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021/22

## Cyflwyniad



Arweinydd y Cyngor

Croeso i Adroddiad Perfformiad Blynyddol cyntaf y cyngor newydd ers Etholiadau Lleol Mai 2022. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch ichi am roi eich ffydd ynom unwaith eto i barhau ar y gwaith da yr ydym eisoes wedi'i wneud yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac yr ydym yn bwriadu ei barhau hyd at etholiadau Mai 2027.

Yr adroddiad hwn hefyd yw'r cyntaf i Dylan Williams, y Prif Weithredwr newydd, sydd wedi arwain gwaith y cyngor ers cael ei benodi ym mis Mawrth 2022. Hoffwn ddymuno'r gorau iddo yn ei rôl newydd gan adeiladu ar ei rôl flaenorol fel y Dirprwy Brif Weithredwr.

Hoffwn ddiolch i Annwen Morgan, y Prif Weithredwr blaenorol, am ei gwaith caled yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Roedd hyn yn cynnwys arwain yr Ynys a staff y cyngor drwy'r pandemig coronafeirws byd-eang, gan sicrhau bod trigolion Ynys Môn yn cael eu hamddiffyn cystal â phosibl a bod gwasanaethau hanfodol yn parhau i gael eu rhedeg yn ystod cyfnod mor anodd. Dymunwn yn dda iddi yn ei hymddeoliad.

Mae'n bwysig nodi ar ddechrau'r adroddiad hwn pa mor ddiolchgar wyf i'r holl staff a sefydliadau partner a sicrhaodd lwyddiant gwasanaethau'r cyngor i bobl Ynys Môn yn ystod y flwyddyn.

Mae hi'n wych gweld faint o waith sydd wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn er gwaethaf cysgod y pandemig coronafeirws a'r pwysau ychwanegol a roddodd hyn ar y cyngor o ran cymorth parhaus i drigolion a busnesau lleol.

Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r cyngor yn ystod 2021/22 ac yn nodi'r hyn a wnaeth y cyngor yn ystod y flwyddyn yn erbyn yr hyn a nodwyd yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2020-22. Mae hefyd yn adrodd ar yr hyn y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni hyd at ddiwedd mis Awst yn erbyn unrhyw waith arfaethedig ar y Cynllun Trosiannol ar gyfer 2022-23.


Byddwch hefyd yn gweld yn yr adroddiad pa mor dda y mae'r dangosyddion perfformiad a nodwyd wedi perfformio yn erbyn yr amcanion llesiant a hefyd pa ddangosyddion y mae angen mwy o waith arnynt yn y flwyddyn i ddod. Ar y cyfan, credaf fod y cyngor wedi perfformio'n anhygoel o dda.


Rwyf i a'm cyd-Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith a Chynghorwyr wedi ymrwymo i barhau â'r daith lwyddiannus hon.

Drwy gydweithio fel y gwnaethon ni, yn enwedig dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gallwn barhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl.

## Uchafbwyntiau Allweddol

Mae rhai o'r uchafbwyntiau allweddol ar gyfer perfformiad eleni i'w gweld isod. I gael gwybodaeth am sut rydym yn monitro perfformiad gweler Atodiad 1:







## Canlyniadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2021/22




## Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2021/22

## Perfformiad Blwyddyn ar Flwyddyn



# Datblygiad yn erbyn ffrydiau gwaith y Cynllun Trosiannol a'r Ddogfen Cyflawni Flynyddol

Mae diweddariadau yn erbyn pob blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithgareddau'r Cynllun Trosiannol a'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol a gwblhawyd cyn y newid mewn blaenoriaethau yn cael eu trafod yn yr adran nesaf o'r adroddiad. Sylwch fod y diweddariadau yn erbyn y Cynllun Trosiannol yn adroddiadau cynnydd hyd at ddiwedd mis Awst gan fod y cynllun yn ei le tan Ebrill 2023.

## Cynllun Trosiannol

Mae adroddiadau cynnydd yn erbyn y camau allweddol a gymerwyd ar y cynllun gwaith presennol i'w gweld isod:

### A. Adfywio'r economi leol ac ymgorffori newidiadau economaidd positif

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | CAG |
|---|---|---|
| 1. Adeiladu 6 uned fusnes newydd ym **Mharc Busnes Bryn Cefni (Tregarnedd), Llangefni** a pharatoi 6 plot ychwanegol i'w gwerthu ar y farchnad agored.<br><br>Adeiladu 7 uned fusnes newydd ym **Mhenrhos yng Nghaergybi** (ar y cyd â Llywodraeth Cymru) | Bryn Cefni, Llangefni<br>1. Gwaith yn mynd rhagddo<br>2. Disgwylir trosglwyddo'r Asedau ym mis Awst 2022<br><br>Penrhos, Caergybi<br>Mae'r gwaith wedi cychwyn ac yn datblygu'n amserol | |
| 2. Cryfhau rôl **Caergybi a'r Porthladd** fel 'Porth' Rhyngwladol Allweddol drwy weithio gyda phartneriaid i gyflawni pob math o brosiectau, yn cynnwys: | a) Trafodaethau'n parhau a'n presenoldeb mewn cyfarfodydd perthnasol yn ôl y galw er mwyn trafod y ffordd ymlaen a sicrhau'r llwyddiant o ddenu'r buddsoddiad i Ynys Môn<br>b) Yn gysylltiedig â chanlyniad pwynt a | |
| | c) Mae'r cais Hwb Hydrogen yn datblygu. | |

| | | |
|---|---|---|
| a. Atgyweirio'r Morglawdd<br>b. Datblygu'r Porthladd yn cynnwys adennill tir<br>c. Hwb Hydrogen Caergybi<br>d. Gwelliannau i'r orsaf | d) Cwblhaodd Network Rail eu gwaith uwchraddio gwerth £2.4m ar gyfer yr Sied Drenau ym mis Mehefin 2022. Mae gwelliannau wedi'u cynllunio o dan gynllun y Porth Ymwelwyr yn 2022/23.<br><br>Mae Uwchgynllun Gorsaf reilffordd a ariennir gan LlC yn cael ei baratoi ac mae'r Cyngor Sir wedi cael cais gan NR/TfW i barhau i drefnu cyfarfodydd grŵp rhanddeiliaid yn rheolaidd. | |
| 3. Cyflawni'r prosiectau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu **Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn**, yn cynnwys:<br>a. Cronfa Grant Busnesau Bach a Grwpiau Cymunedol Gogledd Ynys Môn<br>b. Strategaeth Arwyddion **Porth Amlwch**<br>c. Cyflwyno cynnig cysyniad ar gyfer tir parc y Gymdeithas (a adwaenid yn y gorffennol fel tir Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ym **Mhorth Amlwch**)<br>d. Parhau i ymchwilio i gyfleoedd i ddarparu unedau busnes newydd<br><br>Newydd – | a) Wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. £75k wedi ei ddyrannu i 12 sefydliad | |
| | b) £87,000 o arian NDA wedi ei ddefnyddio i ariannu cynlluniau e.e. Strategaeth Arwyddion Amlwch tuag at Porth Amlwch | |
| | c) Dylunio cysyniadol wedi'i gwblhau ar gyfer darn o dir ym Mhorth Amlwch sy'n berchen i'r Gymdeithas. | |
| | d) Mae'r gwaith hwn wedi cychwyn ac mae tir addas wedi ei glustnodi a phenseiri wedi eu comisiynu. | |
| | e) Hwb MonCF newydd wedi agor mis Ebrill 2022 | |

| | | |
|---|---|---|
| e. Hwb newydd MonCF Gogledd Ynys Môn yng nghanol tref **Amlwch** | | |
| 4. Cefnogi **Bargen Twf Gogledd Cymru** (prosbectws adfer) i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth i helpu i adfer ein economi yn y tymor byr | Parhau i eistedd ar Fyrddau Rhaglenni amrywiol y Bid Twf a darparu cymorth technegol ar y prosiectau, er mwyn sicrhau buddion lleol i'r Ynys. | |
| 5. Sefydlu **Awdurdod Iechyg Porthladd** i gyflawni cyfrifoldebau a gwiriadau rheoli ffiniau | Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei phenderfyniad i ohirio cyflwyno gwiriadau tollau a ffiniau newydd tan ddiwedd 2023. Mae hyn wedi effeithio'n uniongyrchol ar yr angen i'r Cyngor sefydlu Tîm Iechyd Porthladdoedd newydd.<br><br>Er gwaethaf yr oedi, mae Rheolwr Iechyd Porthladd wedi'i benodi ac mae'n parhau i ymgysylltu â DEFRA a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Cyngor yn barod ac yn cael adnoddau i ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau newydd a neilltuir iddo. | |
| 6. Parhau i gyflawni adferiad gwyrdd, cynaliadwy a gwneud **Canol Trefi'n** llefydd mwy bywiog a hyfyw<br>a. Archwilio canol trefi yn Ynys Môn i ddod o hyd i welliannau posib<br>b. Mynd i'r afael ag adeiladu gwag a phroblemus<br>c. Datblygu a chyflawni prosiectau tirweddu a phlannu coed | Gwaith gwaelodlin wedi'i gwblhau a'i ddefnyddio i gefnogi ceisiadau PMG (Cronfa Creu Lleoedd) ac Gronfa Codi'r Gwastad. | |
| | Mae arian wedi'i glustondi a cynlluniau PMG wedi'u cwblhau ac eithrio Canolfan Glanhwfa a Chlwb Cymdeithasol Biwmares (ar y gweill) & Plas Alltran (allan i dendr).<br><br>Cyllid ychwanegol wedi'I gymeradwyo ar gyfer 20+ o brosiectau Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi. | |
| | Cyllid CRF wedi ei gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2021. Arolwg coed yn cael ei gynnal ledled y sir a gwaith gwaelodlin strategol Seilwaith Gwyrdd ar y gweill, sydd bellach i'w gwblhau erbyn Hydref 2022. | |

| | | |
|---|---|---|
| 7. Parhau i symud y **Rhaglen Ynys Ynni** yn ei blaen<br>a. Ymgysylltu a dylanwadu ar y posibilrwydd o ddatblygu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa<br>b. Gweithio gyda datblygwyr prosiectau mawr i sicrhau bod cynigion yn cyflawni buddion lleol, a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol<br>c. Adolygu a diweddaru pwrpas ac amcanion rhaglenni fel eu bod wedi eu halinio'n well â'r gofynion ac ymrwymiadau ym mholisi hinsawdd ac ynni Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | a. Ymateb yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Materion Cymreig i'r oblygiadau capasiti'r grid ar y sector ynni yng Nghymru.<br>- Cynhaliwyd sawl ymweliad o fewn y cyfnod gan gynnwys ymweliad a thrafodaeth gyda Greg Hands, y Gweinidog Gwladol (Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol). Cymerodd y Cyngor ran lawn yn y cyfarfodydd hyn er mwyn codi proffil Ynys Ynni.<br><br>- Cyfarfodydd rheolaidd yn y dyddiadur gyda BEIS er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynigion niwclear newydd yn Wylfa<br><br>-Swyddogion a'r Dirprwy Arweinydd wedi mynychu cyfarfod Nuleaf yng Ngwlad yr Haf a chynrychioli'r Cyngor. | |
| | b. Gwaith yn mynd rhagddo gyda datblygwyr prosiectau mawr.<br>- Morlais –symud ymlaen i'r cyfnod adeiladu<br>- Fferm SolarTraffwll DNS – cais wedi ei dderbyn gan PEDW ac yn symud ymlaen I'r rhan nesaf o'r archwilio. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno Adroddiad Effaith Leol (LIR) a chytuno ar Ddatganiad o Dir Cyffredin (SoCG) gyda'r ymgeisydd. Mae'r Cyngor yn parhau i gynghori ynghylch cynigion Budd Cymunedol.<br>- Fferm Solar Porth Wen – yr holl amodau cyn cychwyn wedi eu rhyddhau gan y Cyngor fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol<br><br>Nifer o PPAs newydd yn cael eu trafod a'u cytuno i sicrhau bod gan Ynys Ynni ddigon o gapasiti ac adnoddau i ymateb i'r galw am ddatblygiad mawr | |
| | c. Adroddiad Terfynol Adolygu Ynys Ynni wedi'i dderbyn gan Arup a'r canfyddiadau wedi eu hadlewyrchu yn Strategaeth Newid Hinsawdd y Cyngor a Chynllun y Cyngor. | |

| | | |
|---|---|---|
| 8. Datblygu a mynd ar drywydd cymorth drwy **Gronfa Codi'r Gwastad ac Adfer Cymunedau Llywodraeth y DU** | Gwaith ar y gweill gyda phartneriaid cyflawni i ddatblygu cynlluniau. Derbyniwyd 16 mynegiant o ddiddordeb ar gyfer y gronfa Adfer Cymunedau a'u hasesu<br><br>Asesiadau o'r mynegiant o ddiddordeb ar gyfer y gronfa Codi'r Gwastad wedi'i gwblhau a chytundeb gan y Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cais ar gyfer adfywio Caergybi. | |
| 9. Gweithio gyda **busnesau lleol** i'w grymuso a'u galluogi i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael drwy gontractau'r Cyngor drwy broses gaffael ddiwygiedig | Deialog barhaus gyda Busnes Cymru, Menter Môn ac MSParc mewn perthynas â'u trafodaethau a'u cefnogaeth i fusnesau ar Ynys Môn. | |
| 10. Parhau i ddarparu **grantiau Llywodraeth Cymru** i fusnesau | Dechreuwyd ar y gwaith o weinyddu'r grantiau a chafwyd cymorth Menter Môn efo'r gweinyddu, oherwydd maint y gwaith. | |

## B. Galluogi'r sector ymwelwyr a lletygarwch i fanteisio ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys ac amddiffyn ein hasedau a'n cymunedau ar yr un pryd

| **Camau Gweithredu Allweddol / *Key Actions*** | **Diweddariad *Update*** | **CAG / *RAG*** |
|---|---|---|
| **1.** Paratoi Cynllun **Rheoli Cyrchfan** ac **AHNE (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol)** newydd | Gwaith yn datblygu parthed y ddau gynllun gyda'r bwriad o weld y cynlluniau yn mynd gerbron y Pwyllgor Gwaith yn ystod tymor y gaeaf | |

| | | |
|---|---|---|
| 2. Buddsoddi i wella ansawdd Parc Gwledig Morglawdd Caergybi, Nant y Pandy a'r seilwaith morol er budd a mwynhad trigolion lleol ac ymwelwyr | Cychwynodd y cytundebau ar 18fed o Orffennaf ac mae cynnydd cyson wedi'i wneud. Mae'r dyddiad cwblhau bellach wedi ei newid i'r 2il Rhagfyr 2022.<br>Gwaith wedi cychwyn mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Priffyrdd<br>Mae'r gwaith i sefydlu'r pyllau wedi'i gwblhau ond nid ydynt yn cadw dŵr. Wrthi'n trafod ail-sefydlu'r pyllau ac opsiynau eraill.<br><br>Llwybr bordiau- gwaith cynnal a chadw rheolaidd oherwydd dirywiad a fandaliaeth<br>Wedi apwyntio ymgynghorwyr Ramboll i wneud y gwaith paratoi ar gyfer y prosiect<br>Gwaith heb gychwyn ond yn ystyried defnyddio ymgynghorywyr i gynorthwyo | |
| 3. Croesawu 4**0+ o longau pleser** i Ynys Môn / Gogledd Cymru yn ystod y tymor yn 2022<br><br>4. Cyflwyno mân welliannau i'r seilwaith ymwelwyr mewn lleoliadau poblogaidd i **wella profiad trigolion ac ymwelwyr**, yn ogystal â dylanwadu'n bositif ar ymddygiad ymwelwyr | Y gwaith wedi datblygu'n dda gydag arian CRF wedi'I ddefnyddio i hyfforddi 17 tywyswyr teithiau. Yn parhau i gydweithio efo LLC | |
| 5. Sefydlu rhaglen waith **Beicio Hamdden a Theithio Llesol** ar gyfer Ynys Môn | Y gwaith ymgynghori a cyflwyno I Lywodraeth Cymru am sel-bendith wedi'i gwblhau yn amserol. | |

| | | |
|---|---|---|
| 6. Newid y ffordd yr ydym ni'n gweithio gyda thrigolion a chymunedau trwy godi ymwybyddiaeth a buddsoddi mewn **Cynllunio Lle** er mwyn i gymunedau fod yn fwy gwydn | Gwaith mapio wedi'i gwblhau ar draws yr holl wardiau.<br><br>Dechreuwyd ar y gwaith o grynhoi ac amlygu'r dystiolaeth a gasglwyd.<br><br>O ganlyniad i'r newidiadau ward, mae cynghrair Llifon bellach wedi rhannu'n 2 Gynghrair, sef Bro Llynnoedd a Chrigyll.<br><br>Mae cynghrair Lligwy wedi cytuno ar ei blaenoriaethau.<br><br>Mae cynghrair Aethwy ar hyn o bryd yn ymgynghori gyda'r gymuned ynglŷn â'i blaenoriaethau. | |

## C. Cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol critigol megis Gofal ac Addysg ledled yr Ynys



| **Camau Gweithredu Allweddol /** | **Diweddariad** | **CAG** |
|---|---|---|
| Sicrhau ein bod yn lleihau'r angen am **lety argyfwng a dros dro** trwy ddod o hyd i **gartrefi parhaol** i unigolion sy'n byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd | Mae gennym 49 o aelwydydd mewn llety argyfwng<br><br>Yn ystod Chwarter 4 2021/22 roedd 25 o aelwydydd wedi symud i dy cymdeithasol neu breifat | |
| Paratoi a mabwysiadu **Cynllun Newid Hinsawdd** i amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol a chymunedau | Mae Cynllun Tuag at Sero Net 2022 – 2025 wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor ar 10 Mawrth. | |
| Adeiladu 83 o **gartrefi ynni effeithiol newydd** â graddfa perfformiad ynni A yn unol â'n Strategaeth Carbon Isel i gwrdd â'r galw'n lleol a sicrhau bod unigolion yn ein cymunedau cael cyfle i fyw mewn cartref fforddiadwy ar draws pob math o ddeiliadaeth i gwrdd â'u hanghenion tai | Hyd at 13.9.22<br><br>• 34 o dai newydd wedi cwblhau 16 o dai newydd ar safle<br>• 61 o dai newydd ar y gweill (mynd drwy'r broses cynllunio)<br>• 39 o dai newydd ar fin cychwyn (wedi cael eu cymeradwyo)<br>• 5 tŷ ar fin cwblhau (cyn tai Cyngor)<br>• 13 o gyn tai Cyngor yn cael eu hadnewyddu<br>• 7 o dai i'w adnewyddu ar y gweill - contract yn cael ei baratoi<br>• 5 o cyn dai Cyngor wedi prynu | |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu **Cartrefi Clyd** Ynys Môn ymhellach yn **Rhosybol, Caergybi a Llangristiolus** gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth **gofal seibiant a Gofal Dydd i blant gydag anableddau** | Cartref Clyd Caergybi – cofrestriad Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) wedi ei ganiatáu. Rhaglen drosglwyddo yn cychwyn. Mae staff wedi eu recriwtio.<br>Haulfryn, Llangristiolus – mae cynlluniau cychwynnol wedi eu tendro ar GwerthwchiGymru<br>Cartref Clyd Rhosybol – Rhaglen waith wedi cychwyn ac i fod i ddod i ben erbyn mis Medi.<br>Cofrestriad AGC i'w gyflwyno | |
| Bwrw ymlaen â'r cyfleuster **Gofal Ychwanegol** yn Ne'r ynys | Datblygiadau yn parhau o ran cynnydd darpariaeth Gofal Ychwanegol newydd ym Mhorthaethwy.<br>- Penseiri, Peiriannydd a Syrfëwr Meintiau wedi'u penodi. | |
| Adolygu ac ail-gomisiynu'r **ddarpariaeth Gofal Dydd ar gyfer Oedolion gydag Anableddau Dysgu** | • Mae'r fanyleb ar gyfer trefniadau cytundebol newydd wedi'i drafftio ac yn cael ei hadolygu<br>• Trafodaethau gyda chaffael mewn perthynas â thempledi tendro<br>• Gwaith pellach ar y gweill i ddatblygu a chynyddu cyfleoedd yn y gymuned<br>• Cwblhawyd buddsoddiad mewn cyfleusterau hygyrch yn ardal Caergybi a Llangefni. Mae cais grant pellach wedi'i gyflwyno ar gyfer Amlwch. | |
| Adolygu ac ail-gomisiynu'r **ddarpariaeth Llety Cymorth ar gyfer Oedolion gydag Anableddau Dysgu** | • Yn dilyn adolygiad People2, mae gwaith cychwynnol wedi ei gwblhau ar ddadansoddi data mewnol (cynlluniau gofal a chytundebau)<br>• Bydd angen ailasesu pob prosiect byw â chymorth gan gynnwys gofal a rennir yn barod ar gyfer gweithdrefnau ail-dendro.<br>• Seydlwyd grŵp prosiect i roi ffrydiau gwaith ar waith i'w datblygu. | |
| Bwrw ymlaen â'r cyfleusterau **ysgol gynradd newydd yn Llangefni** | • Tir wedi'i brynu<br>• Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o'r Achos Busnes Llawn wedi'i dderbyn<br>• Cynllunio yn ei le<br><br>Dechrau'r gwaith adeiladu diwedd 2022 / dechrau 2023 a chwblhau erbyn Awst 2024 | |

## Dogfen Cyflawni Blynyddol

Isod mae canlyniadau rhai o’r gweithgareddau a gyflawnwyd gan y cyngor a oedd yn flaenoriaethau o dan y Ddogfen Gyflawni Flynyddol cyn i’r Cynllun Trosiannol ei ddisodli fel ein cynllun gwaith

### 1. Amcan Llesiant 1 - Sicrhau y gall pobl ynys môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | CAG |
|---|---|---|
| Parhau i gefnogi ein **hysgolion** i ddatblygu fel **sefydliadau sy’n dysgu**, gan sicrhau amgylcheddau dysgu cynhwysol, a hyrwyddo’r dysgu a’r addysgu gorau posib ar gyfer pob dysgwr | Yn cael ei weithredu ar hyn o bryd | |
| Darparu’r **Strategaeth Atal corfforaethol** i sicrhau bod disgyblion a phobl ifanc yn ffynnu ac yn gwireddu eu potensial hirdymor | Wedi’i gwblhau | |
| Ymdrechu i gynyddu’r ansawdd a’r nifer o bobl sy’n ymgeisio am rolau **arweinyddiaeth yn ein hysgolion** | Yn cael ei weithredu ar hyn o bryd | |
| Darparu cyfleoedd i breswylwyr ac ymwelwyr gymryd rhan a defnyddio cyfleusterau hamdden trwy weithredu **Cynllun Adfer Môn Actif** pan fydd yn ddiogel gwneud hynny | Wedi’i gwblhau a Chanolfannau Hamdden yn ôl yn gweithredu fel arfer | |
| Datblygu **strategaeth iechyd meddwl ar gyfer ysgolion** fel bod ystyriaethau Iechyd a Lles wedi'u hintegreiddio'n llawn ym mhob ysgol | Wedi’i gwblhau | |
| Adeiladu ar y **gronfa o wirfoddolwyr** sydd wedi'i sefydlu yn ein cymunedau ers y pandemig ac yn ceisio sefydlu mwy o **gynlluniau tro da yn ein cymunedau** | Wedi’i gwblhau - Medrwn Môn oedd yn arwain y fenter hon drwy gydol y pandemig coronafeirws. Maent yn parhau i adeiladu ar y sylfaen gwirfoddolwyr. | |
| Adolygu ein ffyrdd o ymgysylltu â'n **tenantiaid** i sicrhau bod **llais y cwsmer yn cael ei glywed** wrth gynllunio'r gwasanaethau a gynigir i'n tenantiaid | Wedi’i gwblhau | |
| Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sefydliadau'r 3ydd Sector, Cyngor ar Bopeth a chyrff eraill i sefydlu **menter Bwyd Da Môn** ar gyfer trigolion Ynys Môn er mwyn  ceisio mynd i'r afael â thlodi bwyd a lleihau faint o wastraff bwyd sy'n mynd i safleoedd tirlenwi | Wedi’i gwblhau | |

## 2. Amcan Llesiant 2 - cefnogi oedolion a theuluoedd bregus fel eu bod yn gallu bod yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

| **Camau Gweithredu Allweddol** | **Diweddariad** | **CAG** |
|---|---|---|
| Cynyddu lefelau cyfranogiad yn y **modelau hybiau cymunedol** trwy hyrwyddo a datblygu'r hybiau a gynhelir ledled yr Ynys | Yn cael ei weithredu ar hyn o bryd | |
| Datblygu'r **rhaglen Cysylltu Bywydau** i gefnogi pobl sy'n byw gyda Dementia a gwella gofal seibiant i ofalwyr | Wedi'i gwblhau | |
| Parhau i wreiddio'r 3 **Thîm Adnoddau Cymunedol**, a leolir yn **Amlwch, Ysbyty Penrhos Stanley a Llanfairpwll**, a fydd yn dod â staff y Cyngor a staff Betsi Cadwaladr ynghyd i wella mynediad i'n gwasanaethau gofal a chymorth cyn gynted ag y bo modd. | Wedi'i gwblhau | |
| Parhau i **recriwtio gofalwyr maeth** yn Ynys Môn fel y gall Plant sy'n Derbyn Gofal barhau i fyw yn eu cymunedau pan na all eu rhieni ofalu amdanynt | Rydym wedi cyflawni yn erbyn y targed a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Mae angen i ni barhau i recriwtio mwy o ofalwyr maeth er mwyn diwallu anghenion poblogaeth Plant sy'n Derbyn Gofal Ynys Môn | |
| Datblygu **gwasanaethau seibiant** ymhellach **ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd** | Wedi'i gwblhau | |
| Ymgeisio am gyllid grant allanol i gefnogi cynlluniau i ddatblygu **hen safle Ysgol Llaingoch, Caergybi**, ar gyfer **adeiladu cartrefi newydd** | Wedi'i gwblhau | |
| Cwblhau'r gwaith i alluogi tenantiaid i gysylltu'n ddigidol trwy gyflwyno **system Gwasanaethau Digidol** a fydd yn caniatáu i denantiaid gyfathrebu â ni yn ddigidol, gan gynnwys ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw faterion gofal cwsmer, gwaith gofal a thrwsio, i dalu rhent a chyflwyno unrhyw gwynion am ein stadau. | Wedi'i gwblhau | |

### 3. Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol gyda newid a datblygiadau tra'n diogelu ein hamgylchedd naturiol

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | CAG |
|---|---|---|
| Darparu **pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar safle Parcio a Theithio Llanfairpwll** yn ogystal â nodi safleoedd addas eraill ar gyfer y cyfleusterau hyn ledled yr ynys | Wedi'i gwblhau – Pwyntiau gwefru cerbydau trydan ym maes Parcio a Theithio Llanfairpwll yn ogystal â safleoedd eraill ar draws yr Ynys | |
| Parhau â'n bwriad a'n cyflawniad o ran sicrhau bod dros **70% o'r holl wastraff cartref yn cael ei ailgylchu erbyn 2025** sydd, yn ei dro, yn golygu nad oes angen i wastraff fynd i safleoedd tirlenwi | Mae cyfraddau ailgylchu tua 62.5% ar ddiwedd y flwyddyn 2021/22. Gweler tudalen 24 am fwy o wybodaeth | |
| Datblygu ac yn gweithio ar **gynlluniau lliniaru llifogydd** mewn safleoedd yn **Nwyran, Amlwch, Caergybi, Porthaethwy, Llanfairpwll, Y Fali a Thraeth Coch**, yn ogystal â chydweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar gynllun lliniaru llifogydd **Llangefni** | Wedi'i gwblhau | |
| Parhau i gymell a chefnogi'r swyddogaethau **Tai, Gwarchod y Cyhoedd a Hamdden** a chefnogi staff i wneud y **defnydd mwyaf posib o'r Gymraeg** yn ogystal â pharhau i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg staff sy'n gallu siarad Cymraeg | Wedi'i gwblhau – Gweler Adroddiad Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg | |
| Gwneud paratoadau ac yn aildendro'r **contract prydau ysgol** ar draws yr ynys gan sicrhau bod bwydlen iach a maethlon yn barod erbyn Medi 2021 | Wedi'i gwblhau | |
| Parhau i symud ymlaen â'r rhaglen buddsoddiadau cyfalaf tymor hir i wella hyblygrwydd defnydd ac apêl **Canolfannau Hamdden** y Cyngor Sir yn ogystal â datblygu cynlluniau ar gyfer cae **3G newydd yng Nghaergybi** | Wedi cyflwyno caeau 3G newydd yn ogystal â champfeydd ar eu newydd wedd yn Amlwch a David Hughes | |
| Parhau ar ein taith ddigidol trwy hwyluso darpariaeth hunanwasanaeth ar-lein sy'n caniatáu i ddinasyddion ofyn, adrodd a thalu am wasanaethau ar amser sy'n gyfleus iddynt o unrhyw leoliad, dyfais neu sianel ddigidol trwy ddatblygu ein **System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid** ymhellach a gostwng nifer y ffurflenni sydd ar gael ar bapur yn unig | System CRM newydd wedi'i phrynu ac yn cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd gan TGCh | |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | CAG |
|---|---|---|
| Dechrau gweithredu **Porth Cwsmeriaid y Gwasanaeth Refeniw** i roi gwasanaeth hwylus ac o ansawdd uchel i gwsmeriaid a fydd yn cynnig cyfleusterau hunanwasanaeth ac yn cynorthwyo gyda biliau electronig | Wedi'i ohirio nes bydd y System CRM newydd yn cael ei rhoi ar waith | |
| Sicrhau bod athrawon a disgyblion yn gallu cael mynediad i **wasanaethau ar-lein cyflymach** trwy gynyddu'r cyflymder lawrlwytho band llydan i 300Mb /e yn ein **hysgolion uwchradd** | Wedi’i gwblhau | |
| Cynyddu’r **gymhareb cyfrifiaduron i ddisgyblion** mewn ysgolion trwy ddefnyddio’r **grant HWB** gan Lywodraeth Cymru | Wedi’i gwblhau | |
| Newid hen gerbydau fflyd y Cyngor am **gerbydau trydan neu LPG** mwy newydd lle bo hynny'n briodol ac yn nodi safleoedd Cyngor lle gellir gosod **Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan** | Wedi’i gwblhau | |

Gwyrdd = Cwblhawyd, Melyn = Yn unol â’r cynllun, Oren = Ar ei hôl hi, ond mae camau lliniaru a nodwyd yn golygu bod modd dal i fyny, Coch = Wedi methu yn erbyn yr amserlen. Angen arweiniad gan y Bwrdd Rhaglen neu'r Tîm Arwain ynghylch y ffordd ymlaen

## Canlyniadau Rheoli Perfformiad

Mae monitro perfformiad y DPA yn parhau i fod wedi eu halinio â thri amcan llesiant strategol y Cyngor fel y mae allbynnau'r gwaith cysylltiedig uchod:

- Amcan Llesiant 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan Llesiant 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

Cytunwyd ar dargedau ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar berfformiad y flwyddyn flaenorol ac effaith y pandemig Covid-19. Mae'n galonogol nodi bod mwyafrif (92%) y dangosyddion sy'n cael eu monitro ar draws yr adran wedi perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.



Ar ddiwedd y flwyddyn mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged rheoli absenoldebau staff gyda 8.73 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob Cyfnod Amser Llawn (CALl) yn erbyn targed o 8.75 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob CALl.

Nid yw'r dangosyddion sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd o fewn yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn amlygu unrhyw bryderon, ac ar y cyfan, yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn eu targedau. Yr unig ddangosydd sy'n tanberfformio yn erbyn ei darged yw cyfanswm % yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) - gyda pherfformiad o 66% yn erbyn targed o 80%. Mae natur gymhleth y cwynion hyn yn aml iawn yn golygu cyfraniad aml asiantaethol ac mae llwyddo i alinio'r wybodaeth cyn pen 15 diwrnod yn her reolaidd. Mae'n galonogol bod 39 allan o'r 41 o gwynion a dderbyniwyd yn ystod y chwarter wedi cael eu trafod gyda'r achwynydd cyn pen 5 diwrnod, ac roedd 7 o'r 13 ymateb ysgrifenedig a anfonwyd yn hwyr wedi'u cytuno â'r achwynydd cyn canfod eu bod yn hwyr, fel y nodwyd yn y protocol cwynion.

Mae gwaith wedi dechrau ac yn parhau o ran gwella bodlonrwydd y cwsmer ar draws gwasanaethau am y flwyddyn i ddod.

Mae'r adran rheoli cyllid yn darogan tanwariant o £4.688m ar hyn o bryd, ar gyfer y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022. Mae blwyddyn ariannol 2021/22 wedi bod yn flwyddyn gwahanol ac mae'r Cyngor wedi derbyn llawer iawn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddelio gyda'r pandemig a'r cyfnod adfer. Y cyllid ychwanegol hwn yw'r prif reswm pam bod tanwariant sylweddol yng nghyfrifon y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nid yw hyn yn unigryw i Ynys Môn ac mae mwyafrif y Cynghorau eraill yng Nghymru mewn sefyllfa debyg.

Mae'r sefyllfa alldro derfynol wedi caniatáu i'r Cyngor gynyddu balansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, a hynny ar ôl caniatáu y defnydd o £3.5m o falansau cyffredinol ar nifer o brosiectau. Bydd lefel y balansau cyffredinol yn dal i fod yn uwch na'r lefel isaf a argymhellir ac yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gref.

Mae'r cynnydd cyfredol mewn tâl a phrisiau yn golygu bod llawer iawn o ansicrwydd ynghylch costau'r Cyngor yn 2022/23 a'r cyllid a fydd ei angen yn 2023/24.

Mae tanwariant ar y Rhaglen Cyfalaf ar gyfer 2021/22 yn £33.457m. Mae £11.242m o'r tanwariant hyn oherwydd llithriad a bydd yn cael ei ddwyn ymlaen i Raglen Gyfalaf 2022/23. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2022/23. Y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 yw £47.203m.

Mae'r canlyniadau cyffredinol yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol bod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor yn cyflawni yn erbyn y disgwyliadau o ran rheoli ei bobl, ei gyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid. Mae'n galonogol hefyd nodi bod staff yr Awdurdod, yn ystod cyfnod llawn heriau, yn cyflawni yn erbyn eu disgwyliadau, a hynny i safon briodol.

Er bod y data yma'n rhoi darlun cadarnhaol o berfformiad y Cyngor Sir ac yn gallu dangos bod safonau priodol yn cael eu bodloni, mae hefyd yn galonogol nodi bod mwyafrif (91%) y dangosyddion perfformiad penodol o fewn yr adranhon yn perfformio'n uwch na'u targed neu o fewn 5% i'w targed.

Mae hyn yn welliant ar y perfformiad a welwyd ar ddiwedd 2020/21.

## Amcan Llesiant 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir




Mae’r dangosyddion a gafodd eu monitro yn erbyn **Amcan Llesiant 1** wedi perfformio’n dda ac yn uwch na’r targed ac yn Wyrdd ar gyfer y cyfnod.



Mae rhai enghreifftiau o’r perfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

| Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau’r rhaglen ymarfer corff |
|---|
| 84% Gwyrdd |

Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau’r rhaglen ymarfer corff – a chanddo lefel berfformiad o 84% yn erbyn targed o 80%. Mae hyn yn gadarnhaol iawn gan y cafodd y cynllun ei atal y llynedd o ganlyniad i’r pandemig, a dyma’r tro cyntaf i gleientiaid gwblhau’r rhaglen ers ei hailddechrau.

Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd

Gwyrdd

**91 eiddo**

Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u hadfer i ddefnydd - sydd bellach yn gyfanswm o 91 eiddo sydd wedi'u hadfer i ddefnydd yn erbyn targed blynyddol o 50. Mae'n galonogol nodi bod y perfformiad yma yn sylweddol uwch (82% yn uwch) na'r targed o 50 eiddo am y flwyddyn. Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi profi i fod yn fuddiol yma, ac mae'n gadarnhaol bod 91 yn llai o eiddo gwag o fewn ein cymunedau.

Nid oedd yn bosib casglu gwybodaeth am bresenoldeb yr ysgolion cynradd ac uwchradd (dangosydd 1 a 2) yn yr un modd ag arfer eleni oherwydd y pandemig Covid. Fodd bynnag mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn casglu pob math o ffigurau yn ystod y flwyddyn i fesur absenoldebau. O'r ffigurau a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru, ar gyfartaledd roedd 86.5% o ddisgyblion (o ysgolion cynradd ac uwchradd) yn yr ysgol yn ystod wythnos olaf tymor y gaeaf (Ebrill 4ydd -8fed). Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan [Llywodraeth Cymru.]()

Nid oes gwybodaeth ar gael ar gyfer y dangosyddion canlynol –

Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen – ni chynhaliwyd asesiadau yn ystod 2020/21 oherwydd pandemig y coronafeirws;


Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd - cafodd yr asesiadau eu haddasu ar gyfer y flwyddyn i sicrhau bod gwasanaethau'n adrodd ar y gwasanaethau a ddarparwyd yn hytrach na'r targedau a osodwyd a oedd yn anymarferol oherwydd pandemig y coronafeirws;

Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) – mae'r oedi o ran y gwaith gosod meddalwedd wedi effeithio ar ein gallu i weithredu elfen boddhad tenantiaid y feddalwedd yn ystod 2021/22.

## Amcan Llesiant 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib



Mae perfformiad yn erbyn y dangosyddion ar gyfer **Amcan Llesiant 2** yn dangos perfformiad da unwaith eto. Dim ond tri ddangosydd (20%) sydd yn Felyn tra bo 11 dangosydd (73%) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau.




Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref

**80.95%** Gwyrdd

Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref

**92%** Gwyrdd

Mae'r dangosyddion Digartrefedd ar gyfer y Gwasanaethau Tai wedi dangos perfformiad da hefyd, gyda'r ddau'n Wyrdd yn erbyn eu targed. Bu defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru'n hanfodol o ran caniatáu i hyn ddigwydd, yn ogystal ag ymrwymiad staff i sicrhau bod ein pobl yn cael eu hatal rhag bod yn ddigartref.

Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn Wyrdd yn erbyn eu targed. Ar adeg pan fu'r Gwasanaeth o dan bwysau o ganlyniad i'r pandemig, mae hyn yn galonogol ac yn argoeli'n dda ar gyfer 2022/23.

| Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Gwyrdd 94.78% | Gwyrdd 64.85% | Gwyrdd 14.33 | Gwyrdd 96.10% |


Nodir gennym fod un dangosydd wedi dirywio yn erbyn targed am y flwyddyn –

Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn yn AMBR gyda pherfformiad o 318 diwrnod yn erbyn targed o 270 diwrnod. Roedd perfformiad fymryn yn well chwarter yn erbyn chwarter am y ddwy chwarter olaf, fodd bynnag mae'n waeth na'r 258 diwrnod a adroddwyd ar ddiwedd 2020/21.

Roedd 14 o blant (o gyfanswm o 48 ar y gofrestr) sydd wedi bod ar y gofrestr am fwy na 7 mis. Roedd yr achosion hyn yn gymhleth o ran eu natur ac mae llawer o'r plant hyn yn destun yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, tra bo'r gweddill yn cael eu trafod yn rheolaidd mewn Cyfarfodydd Porth Cyfreithiol. O ran pob achos sy'n cyflawni'r meini prawf llym ar gyfer eu tynnu oddi ar y gofrestr, fe gawsant eu tynnu o oddi ar y gofrestr, neu bydd hynny'n digwydd pan fo'n briodol i wneud hynny.

| Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn |
|---|
| Ambr 318 Diwrnod |

## Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol




Roedd ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion **Amcan Llesiant 3**, hefyd yn dangos cynnydd da yn ystod y flwyddyn. O'r deg dangosydd â thargedau dim ond dau (20%) oedd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau blynyddol.

Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Mae tri o'r dangosyddion rheoli gwastraff (dangosydd 31,33 a 34) wedi perfformio'n dda yn erbyn y targedau ystod y flwyddyn. Roedd 95.5% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn yn lân ac mae'n galonogol nodi bod achosion o dipio anghyfreithlon yn cael eu clirio o fewn 0.25 diwrnod.

| Canran y strydoedd sy'n lân | Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon |
|---|---|
| Gwyrdd<br>95.5% | Gwyrdd<br>0.25 Diwrnod |

Roedd trigolion wedi cynhyrchu llai o wastraff gweddilliol na'r targed a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag maent wedi cynhyrchu ychydig bach mwy o wastraff, 223kg y pen o'i gymharu â 214kg y pen yn 2020/21. Mae'n hanfodol bod trigolion yn cynorthwyo i gynhyrchu llai o wastraff gweddilliol ac ailgylchu mwy os ydym am gyrraedd y targed i ailgylchu 70% o wastraff yr Ynys erbyn 2025

| Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person |
| --- |
| 233kg (Gwyrdd) |

Roedd y tri dangosydd priffyrdd sy'n ymwneud ag Arolygon cyflwr ffyrdd A, B ac C yr Ynys (dangosyddion 38 – 40) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau ac maent yn dangos gwelliant o'i gymharu â 2020/21. Mae'r gwelliant mwyaf i'w weld yng nghyflwr ein ffyrdd A lle mai dim ond 3% oedd mewn cyflwr gwael yn 2021/22 o gymharu â 4.6% yn 2020/21

| Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael | Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael | Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael |
| --- | --- | --- |
| 3.0% (Gwyrdd) | 2.8% (Gwyrdd) | 8.2% (Gwyrdd) |

Nodwn bod dau ddangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau ac maent wedi'u hamlygu'n Goch neu'n Ambr.

Canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio yn goch gyda pherfformiad o 62.39% yn erbyn targed uchelgeisiol lleol o 70% a targed statudol cenedlaethol o 64% ar gyfer y flwyddyn.

Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio

Coch

62.39%

Mae'r perfformiad hwn fymryn yn is na'r 62.96% a welwyd ar ddiwedd 2020/21 ac yn lleihad pellach wrth gymharu a perfformiad a gostyngiad pellach o gymharu â pherfformiad blynyddoedd blaenorol (67.26% yn 2019/20, 69.86% yn 2018/19 a 72.2% yn 2017/18).

Dros 12 mis yn ôl mynegodd y swyddogion a'r aelodau etholedig bryderon o ran cyrraedd y targedau dros dro a thymor hwy (70% erbyn 2024/25). Am y rheswm hwn, cafodd WRAP Cymru eu gwahodd i gynorthwyo'r Cyngor i ddadansoddi ei berfformiad gweithredol a gwneud argymhellion i'w helpu i gyrraedd y targedau gofynnol. **Bydd WRAP Cymru'n ymweld â'r Ynys i gynnal asesiadau ymarferol a rhannu canlyniadau yn ystod 2022/23.**

**Bydd cyrraedd y targed statudol cenedlaethol o 70% erbyn 2024/25 yn cael ei oruchwylio gan grŵp llywio penodol.**

Roedd y canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd yn goch gyda 50% yn erbyn targed o 65%.

Prosesodd y Cyngor 886 o geisiadau cynllunio yn ystod 2021/22. I'r cyd-destun, mae'r mesur hwn yn ymwneud â 10 apêl yn unig a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Mae'r dangosydd hwn yn ymdrin â niferoedd bach iawn ac mae'r tanberfformiad o ganlyniad i gadarnhau 5 allan o 10 apêl cynllunio. Dylid nodi nad yw penderfyniadau apêl yn cael eu gwneud gan yr awdurdod cynllunio lleol.


**Byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau apêl yn ymwneud â cheisiadau tebyg i geisio canfod unrhyw batrymau sy'n datblygu lle dylem ailedrych ar ein dehongliad o'n polisïau cynllunio lleol.**

Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd

Coch

50%

## Perfformiad Cyffredinol




Dengys ein lefelau perfformiad o'r naill flwyddyn i'r llall ar gyfer yr holl ddangosyddion cyffelyb (cyfanswm o 30) bod 18 (60%) wedi gwella yn ystod y flwyddyn, 10 (33%) wedi gostwng a 2 (7%) wedi cynnal eu lefelau perfformiad.



Ar y cyfan mewn blwyddyn anodd arall, mae'n galonogol adrodd bod 75% o'r dangosyddion i fonitro yr Amcanion Llesiant yn Wyrdd yn erbyn y targed ar gyfer y flwyddyn



# Atodiad 1

## Sut mae'r cyngor yn mesur ac yn dadansoddi perfformiad

**Beth yw Rheoli Perfformiad?**

Mae Rheoli Perfformiad yn broses lle mae'r cyngor a'i staff yn cydweithio i gynllunio, monitro ac adolygu'r blaenoriaethau corfforaethol trwy amcanion corfforaethol, amcanion gwasanaeth ac amcanion unigol, o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd. Gyda staff yn cael eu hailgyfeirio a'u hail-ddyrannu i weithio'n uniongyrchol ar faterion yn ymwneud â’r pandemig yn ystod y flwyddyn, roedd rheoli perfformiad yn her a mabwysiadwyd agwedd bragmatig trwy arweinyddiaeth yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr.

**Cynllun y Cyngor**

Mae Cynllun y Cyngor wedi nodi Nodau ac Amcanion strategol y Cyngor ar gyfer y tymor etholiadol. Mae'n llywio'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor.

Mae’n llywio’r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor ac yn:

- gosod y fframwaith y mae'r cyngor yn ei ddefnyddio i gynllunio, gyrru a darparu gwasanaethau
- dylanwadu ar y ffordd y mae'r cyngor yn llunio'r gyllideb yn flynyddol, a
- helpu i fonitro cynnydd ac asesu'r hyn y mae'r cyngor yn ei gyflawni'n flynyddol.

**Sut a phryd y caiff ei fonitro?**

Cyflawnir amcanion llesiant y Cyngor drwy wireddu’r Ddogfen Gyflawni Flynyddol a’r Cynllun Trosiannol dilynol. Fel arfer, caiff y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ei chreu ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ac mae'n nodi'r meysydd blaenoriaeth allweddol, fel yr amlinellwyd yng Nghynllun y Cyngor, y bydd y cyngor yn canolbwyntio ar eu gwireddu yn ystod y 12 mis nesaf. Datblygwyd y Cynllun Trosiannol ar gyfer 2022-23 fel cynllun adfer yn dilyn y pandemig coronafeirws a’r angen dilynol i ail-werthuso’r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn a disodli blaenoriaethau’r Ddogfen Gyflawni Flynyddol o fis Ionawr 2022.

Cawsant eu monitro trwy amrywiaeth o sianeli gwahanol, gan gynnwys:

- Byrddau Rhaglen Trawsnewid Chwarterol;
- Adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarterol; a
- Adolygiadau Gwasanaeth Blynyddol

Mae adroddiadau sy'n defnyddio gwybodaeth o'r ffynonellau hyn yna'n cael eu hystyried gan y swyddogaeth sgriwtini corfforaethol ac yna gan y Pwyllgor Gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod yn ymwybodol o'r cynnydd y mae'r cyngor yn ei wneud yn erbyn y blaenoriaethau.

**Byrddau Rhaglen Trawsnewid**

Mae gan y Byrddau Rhaglen gylch gwaith i fonitro a llywio cynnydd ar Raglenni a Phrosiectau Newid cysylltiedig gan roi hyder i Aelodau etholedig ac Uwch Arweinwyr bod y buddion a ragwelir i'r Cyngor a chymunedau yn cael eu gwireddu ac mae sicrhau cyflymder newid yn allweddol.

**Adolygiadau Gwasanaeth**

Disgwylir i bob Gwasanaeth gynnal dau Adolygiad Gwasanaeth y flwyddyn a gynhelir ac a reolir yn gorfforaethol:

1. Adolygiad Gwasanaeth Ariannol

   Ymgymerwyd â rhagfynegi arbedion gwasanaeth a gwaith trawsnewid y gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo'r broses o osod cyllideb flynyddol y Cyngor.

2. Adolygiad Gwasanaeth Perfformiad a Risg

   Ceisiadau i wasanaethau gwblhau hunanasesiad gwasanaeth i nodi sut mae'r Gwasanaethau yn perfformio yn erbyn amcanion allweddol. Fe'i defnyddir i roi sicrwydd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith bod cyfeiriad y gwasanaeth yn cyd-fynd â chyfeiriad ehangach y Cyngor a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

**Cerdyn Sgorio Corfforaethol**

Mae'r cerdyn sgorio corfforaethol yn nodi'r cynnydd yn erbyn dangosyddion allweddol sy'n dangos gweithrediad llwyddiannus gweithgareddau  o ddydd i ddydd y Cyngor yn glir. Mae'n helpu i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth o ddangosyddion sy'n cael ei defnyddio i ddrafftio'r adroddiad perfformiad blynyddol. Mae'n portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol.

Mae adroddiad monitro'r cerdyn sgorio chwarterol yn amlinellu camau lliniaru y mae'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol wedi'u nodi i ysgogi a sicrhau gwelliannau. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei graffu gan y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith lle gellir cael sicrwydd bod perfformiad ar draws gwasanaethau yn cael ei reoli'n effeithiol.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Cyngor Sir |
| Dyddiad y cyfarfod: | 27 Hydref 2022 |
| Teitl: | Amseru Cyfarfodydd y Cyngor |
| Adroddiad gan: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |

**1.0 Cefndir**

Yn unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru dan Adran 6(1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i'r Cyngor gynnal arolwg ymhlith yr Aelodau o ran amseru ei gyfarfodydd. Dylai pob awdurdod lleol adolygu amseroedd cychwyn cyfarfodydd o leiaf unwaith y tymor, gorau oll petai hynny'n fuan ar ôl ethol Cyngor newydd.

Mae hyn hefyd yn gyson a'r datganiad Cyngor Amrywiol y bu i'r Cyngor llawn ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar 7 Medi 2021, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor hwn ar 29 Gorffennaf 2021. Mae'r datganiad yn cynnwys ymrwymiad i "*ystyried sut i ddarparu hyblygrwydd ym musnes y Cyngor trwy adolygu ei drefniadau ymarferol o ran cynnal cyfarfodydd*".

**2.0 Ymatebion**

Dosbarthwyd holiadur i'r holl aelodau, er mwyn cael eu barn. Y dewisiadau oedd cychwyn cyfarfodydd am 10.00am, 2.00pm, 4.00pm neu 6.00pm. Adroddwyd ar ddadansoddiad o'r opsiynau a ffafrir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 4 Hydref 2022, fel y crynhoir isod.

Cafwyd 17 o ymatebion (48.57%) o du'r aelodau etholedig; mae dadansoddiad ar gael yn Atodiad 1. Cylchredwyd yr holiadur hefyd ymysg aelodau anetholedig, gan gynnwys y partïon allanol sy'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG).

Roedd y mwyafrif o'r rheiny a ymatebodd yn ffafrio parhau â'r trefniadau presennol, sef:-

Cyngor Sir (2:00pm)
Pwyllgor Gwaith (10:00am)
Yr holl Bwyllgorau eraill (2:00pm)

Fodd bynnag, roedd y sefyllfa o ran y ddau bwyllgor canlynol angen sylw pellach:

**Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion** – mae'r cyfarfodydd yn cychwyn am 1.00pm ar hyn o bryd ond roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn ffafrio cychwyn y cyfarfodydd am 2pm

**Pwyllgor Safonau** – mae'r cyfarfodydd yn cychwyn am 2.00pm ar hyn o bryd ond roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn ffafrio cychwyn y cyfarfodydd am 10am

## 3.0 Ystyriaethau cydraddoldeb

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd roi sylw dyledus i'r pwyntiau isod cyn gwneud ei argymhellion i'r Cyngor llawn:

- Roedd lleiafrif bychan (2 aelod) yn ffafrio cychwyn yn hwyrach (4.00pm a 6.00pm)

- Nododd 3 aelod y byddai cadw at ddyddiau penodol ar gyfer cynnal cyfarfodydd pwyllgor (dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau) yn helpu gyda chyfuno gwaith a chyfrifoldebau eraill gyda rôl aelod.

- Argaeledd cymorth ariannol tuag at gostau gofal a chymorth personol, er mwyn:

  - galluogi unrhyw un y byddai eu cyfrifoldebau fel gofalwr yn cyfyngu ar eu gallu i gyflawni ei rôl fel aelod, neu

  - roi cymorth gofal i aelod er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rôl.

  Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o'r farn y dylai Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd gymryd camau i annog aelodau sy'n gymwys i hawlio'r cyfraniadau hyn.

## 4.0 Argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Gofynnir i'r Cyngor ystyried yr argymhellion canlynol a wnaed gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 4 Hydref 2022:

- lle bo modd, cadw'r amseroedd cychwyn presennol ar gyfer cyfarfodydd arferol y Cyngor Sir (2.00pm); y Pwyllgor Gwaith (10:00am) a phob pwyllgor arall (2:00pm), yn amodol ar y paragraff nesaf isod

- y dylai amseroedd cychwyn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r Pwyllgor Safonau gael eu penderfynu gan y Pwyllgorau hynny, ar ôl derbyn cyngor gan eu swyddogion arweiniol

- lle bo modd, dylid cynnal cyfarfodydd Pwyllgor ar ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau; er mwyn helpu i gyfuno gwaith a chyfrifoldebau eraill gyda rôl aelod

- bod y Cyngor yn cymryd y cyfle i godi ymwybyddiaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael tuag at gostau gofal a chymorth personol; a

- nodi, yng ngoleuni canllawiau statudol drafft y mae disgwyl i Lywodraeth Cymru eu cyhoeddi, y bwriedir cynnal adolygiad pellach o amseriad, amlder a hyd cyfarfodydd pwyllgor yn gynnar yn 2024. Bydd yr arolwg drafft a fydd yn cael ei ddosbarthu i aelodau yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo yn gyntaf gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**Atodiad 1**

| Pwyllgor | Adborth yn nhrefn y dewis a ffefrir | Nifer sy'n ffafrio'r amser fel dewis cyntaf |
|---|---|---|
| **Cyngor Sir** | | |
| 10.00am | 2 | 5 |
| 2.00pm | 1 | 9 |
| 4.00pm | 3 | 1 |
| 6.00pm | 4 | 0 |
| **Pwyllgor Gwaith** | | |
| 10:00am | 1 | 9 |
| 2:00pm | 2 | 4 |
| 4:00pm | 3 | 1 |
| 6:00pm | 4 | 0 |
| **Pwyllgorau Sgriwtini** | | |
| 10:00am | 2 | 5 |
| 2:00pm | 1 | 7 |
| 4:00pm | 3 | 1 |
| 6:00pm | 4 | 1 |
| **Pwyllgorau Rheoleiddiol** (Cynllunio a Gorchmynion; Llywodraethu ac Archwilio; Penodiadau, Ymchwilio; Disgyblu; Apeliadau; Trwyddedu) | | |
| 10:00am | 2 | 5 |
| 2:00pm | 1 | 8 |
| 4:00pm | 3 | 2 |
| 6:00pm | 4 | 0 |
| **Pwyllgorau eraill** | | |
| 10:00am | 2 | 5 |
| 2:00pm | 1 | 7 |
| 4:00pm | 3 | 1 |
| 6:00pm | 4 | 1 |